Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau Statudol ar Ofal Plant









OGL © Hawlfraint y Goron 2026 Llywodraeth Cymru, WG54597, ISBN digido 978-1-83745-614-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Canllawiau Statudol ar Ofal Plant

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 2 |
| **Pennod 1 – Cyflwyniad** | 3 |
| **Pennod 2 – Sicrhau Gofal Plant Digonol ac Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant** | 5 |
| **Pennod 3 – Monitro ac Adrodd ar Berfformiad yn Flynyddol** | 22 |
| **Pennod 4 – Pwerau awdurdodau lleol, trefniadau a thaliadau** | 24 |
| **Pennod 5 – Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth** | 27 |
| **Atodlen 1 – Diffiniad o'r Categorïau Iaith** | 42 |
| **Atodlen 2 – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** | 43 |
| **Atodlen 3 – Mathau o Ofal Plant a Gwasanaethau** | 45 |
| **Atodlen 4 – Templed ar gyfer Adroddiad ar Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant** | 52 |
| **Atodlen 5 – Cynllun Gweithredu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant** | 56 |
| **Atodlen 6 – Templed Adroddiad Monitro Blynyddol 2027 ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant** | 58 |
| **Atodlen 7 – Safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd** | 60 |
| **Rhestr Termau** | 62 |

## Crynodeb

Dyroddir y canllawiau hyn o dan adrannau 22(3), 23(3), 26(2)(b) a 27(7) o Ddeddf Gofal Plant 2006 ac adran 118A(2)(b) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Fel canllawiau statudol, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt. Mae hyn yn golygu bod rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau ac, os byddant yn penderfynu gwyro oddi wrthynt, bod rhaid iddynt gael rhesymau clir y gellir eu cyfiawnhau dros wneud hynny.

Bwriedir i'r canllawiau hyn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i wneud y canlynol:

- sicrhau bod gofal plant digonol ar gael i gefnogi rhieni i weithio neu i ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant y gellid disgwyl yn rhesymol y byddai'n eu helpu i gael swydd;
- cynnal asesiadau digonolrwydd gofal plant; a
- darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â gofal plant i rieni, darpar rieni a'r rhai a chanddynt gyfrifoldeb rhiant neu sy'n gofalu am blentyn.

Mae'r canllawiau hyn yn cymryd lle y canllawiau a gyhoeddwyd yn flaenorol ym mis Gorffennaf 2016, a'r canllawiau atodol yn y cylchlythyr Rhif: WGC003/21 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

Mae'r cyflwyniad ym Mhennod 1 yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r holl ofynion a amlinellir yn y canllawiau hyn.

Mae Pennod 2 yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i sicrhau gofal plant digonol ar gyfer eu hardal ac i asesu'r ddarpariaeth gofal plant honno.

Mae Pennod 3 yn amlinellu'r modd y mae rhaid i awdurdodau lleol fonitro eu cynnydd o ran sicrhau gofal plant digonol.

Mae Pennod 4 yn nodi pwerau awdurdod lleol mewn perthynas â darpariaeth gofal plant, y trefniadau rhwng yr awdurdod lleol a darparwyr gofal plant a'r taliadau a godir pan fo awdurdod lleol yn darparu gofal plant.

Mae Pennod 5 yn nodi'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

# Pennod 1

# Cyflwyniad

1.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r holl ofynion a amlinellir yn y canllawiau hyn.

## Y Gyfraith

1.2 Mae Deddf Gofal Plant 2006[1] (Deddf 2006) yn ehangu ac yn egluro mewn deddfwriaeth y rôl hanfodol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae fel arweinwyr strategol wrth ddarparu gofal plant yn lleol. Mae Deddf 2006 yn atgyfnerthu'r fframwaith y mae awdurdodau lleol eisoes yn gweithio oddi mewn iddo – mewn partneriaeth â'r sector preifat, y sector gwirfoddol, y sector annibynnol, y sector cymunedol a'r sector a gynhelir – i lunio a sicrhau gwasanaethau plant, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddarparu:

- gofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni i'w cefnogi i weithio; neu ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant y gellid disgwyl yn rhesymol y byddai'n eu helpu i gael swydd; a

- gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â gofal plant i rieni, darpar rieni a'r rhai a chanddynt gyfrifoldeb rhiant neu sy'n gofalu am blentyn.

1.3 Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gydlynu ymdrechion ar draws gwasanaethau ac sy'n arwain yr ymdrechion hynny, gan alluogi sefydliadau gwahanol, fel darparwyr gofal plant a rhanddeiliaid perthnasol eraill, i gydweithio i sicrhau darpariaeth gynaliadwy a digonol o ansawdd uchel sy'n ymateb i anghenion plant a'u teuluoedd.

1.4 Mae adran 22 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddarpariaeth gofal plant[2] sy'n ddigonol i fodloni gofynion rhieni yn eu hardal i'w galluogi i wneud y canlynol:

- dechrau gweithio, neu aros mewn gwaith; neu
- ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant y gellid disgwyl yn rhesymol y byddai'n eu helpu i gael swydd.

1.5 Mae pwerau awdurdod lleol mewn perthynas â darparu gofal plant wedi eu nodi o dan adran 23 o Ddeddf 2006. Mae adrannau 24 a 25 yn nodi'r trefniadau rhwng yr awdurdod lleol a darparwyr gofal plant a'r taliadau a godir pan fo awdurdod lleol yn darparu gofal plant.

---

[1] Deddf Gofal Plant 2006
[2] Lle mae rhaid i'r darparwr fod wedi ei gofrestru â Gweinidogion Cymru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

1.6 Mae Rheoliadau[3] a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiadau digonolrwydd gofal plant ar gyfer eu hardal. Mae'r Rheoliadau yn pennu'r broses a'r cylch cynllunio, y gofynion o ran ymgynghori a chyhoeddi, gan gynnwys manylion yr wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn yr asesiad. Mae hwn yn gam angenrheidiol i sicrhau darpariaeth ddigonol, gan alluogi awdurdodau lleol i nodi bylchau a sefydlu cynlluniau i ddiwallu anghenion rhieni.

1.7 Mae dyletswydd gyfatebol ar awdurdodau lleol i adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant ar gyfer eu hardal (gan gynnwys darparwyr sy'n rhan o gynllun cymeradwyo gwirfoddol) a darparu gwybodaeth am y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal o dan adran 118A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998[4].

1.8 Mae'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol o dan adran 27 o Ddeddf 2006 i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni yn agwedd hanfodol ar gyflawni marchnad gofal plant effeithiol lle y gall rhieni fynegi eu hanghenion a chael gafael ar gymorth a darpariaeth yn hawdd. Mae Rheoliadau[5] a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 27 yn nodi'r categorïau o wybodaeth y mae rhaid i awdurdodau lleol eu darparu.

## Cyllid

1.9 Caniateir i rôl awdurdod lleol o ran hwyluso'r farchnad gofal plant a sicrhau gofal plant digonol gael ei chefnogi gan fentrau a grantiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

1.10 Dylai awdurdodau lleol fod yn rhagweithiol ac yn arloesol wrth archwilio a sicrhau cyllid i gefnogi mentrau lleol a chenedlaethol ac wrth sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hannog i hawlio'r cymorth ariannol sydd ar gael.

---

[3] Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2026 a Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016
[4] Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
[5] Rheoliadau Gofal Plant (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)

# Pennod 2

## Sicrhau gofal plant digonol (adran 22) ac Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (adran 26)

2.1 Mae'r Bennod hon yn rhoi trosolwg o'r dyletswyddau cyfreithiol sy'n ofynnol i sicrhau gofal plant digonol ac adrodd ar y digonolrwydd hwnnw. Mae hyn yn cynnwys y broses adrodd a'r hyn y dylid ei gynnwys mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Mae'r Bennod wedi ei rhannu'n dair rhan:

**Rhan 1: Dyletswyddau Cyfreithiol**
Mae'r rhan hon yn amlinellu'r dyletswyddau cyfreithiol a'r Rheoliadau sy'n sail i'r gofyniad i awdurdodau lleol gwblhau Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

**Rhan 2: Gofynion adrodd ac amserlenni ar gyfer Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant**
Mae'r rhan hon yn amlinellu diben Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ac yn darparu gwybodaeth am y broses o gyflwyno Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny.

**Rhan 3: Datblygu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant**
Mae'r rhan hon yn amlinellu'r meysydd i'w hystyried wrth ddatblygu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

## Rhan 1: Dyletswyddau Cyfreithiol

2.2 Mae'r dyletswyddau a nodir yn adrannau 22 a 26 o Ddeddf 2006 a'r Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lywio a chefnogi'r broses o ddatblygu darpariaeth gofal plant yn yr ardal leol er mwyn ei gwneud yn hyblyg, yn gynaliadwy ac yn ymatebol i anghenion y gymuned.

2.3 Y bwriad yw sicrhau bod rhieni'n gallu cael gafael ar ofal plant yn lleol sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i weithio neu ddysgu. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall ac ymateb i anghenion lleol.

2.4 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiad llawn o'r ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal bob pum mlynedd ac adolygu'r asesiad yn barhaus fel rhan o'u hadroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru.

2.5 Bydd yr asesiad hwn yn cyfrannu at fapio darpariaeth gofal plant a fydd yn ategu ac yn helpu i lywio trefniadau cynllunio lleol, gan alluogi awdurdodau lleol i weithio'n effeithiol gyda lleoliadau gofal plant i sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol.

2.6 Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd, bydd angen i'r awdurdod lleol asesu'r farchnad gofal plant leol er mwyn meithrin dealltwriaeth o anghenion rhieni am

ofal plant, nawr ac yn y dyfodol. Bydd yr awdurdod lleol yn cymharu'r asesiad o'r galw ymhlith rhieni am ofal plant â gwybodaeth am argaeledd presennol ac arfaethedig darpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol.

**Adran 22 – Dyletswydd i sicrhau gofal plant digonol i rieni sy'n gweithio**

2.7 Mae Deddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gofal plant digonol i ddiwallu anghenion lleol rhieni/gofalwyr yn eu hardal i'w galluogi i ddechrau gweithio, neu aros mewn gwaith; neu ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant y gellid disgwyl yn rhesymol y byddai'n eu helpu i gael swydd.

2.8 Nod y canllawiau hyn yw helpu pob awdurdod lleol i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gofal plant digonol i ddiwallu anghenion ei ardal. Wrth benderfynu a yw'r ddarpariaeth gofal plant yn ddigonol, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried anghenion rhieni yn ei ardal am y canlynol:

- darpariaeth gofal plant i blant a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd.
- darpariaeth gofal plant lle defnyddir y Gymraeg.
- darpariaeth gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

2.9 Dylai awdurdodau lleol ystyried y problemau penodol sy'n ymwneud â'r gallu i gael gofal plant fel sy'n briodol, ar gyfer rhieni sy'n gweithio, rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi, aelwydydd di-waith, teuluoedd incwm isel, teuluoedd rhiant unigol, teuluoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a theuluoedd â phlant a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, neu anabledd.

2.10 Bydd angen i awdurdodau lleol hefyd ystyried argaeledd gofal plant i gefnogi rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol.

2.11 Yn hytrach na gorfodi awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal plant unigol pob teulu sy'n gweithio, y bwriad yw sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cymryd camau strategol i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant ar lefel gymunedol. Bydd disgwyl i awdurdodau lleol helpu i ddatblygu gofal plant pan fo digon o alw ymhlith rhieni fel y gallai darparwr gofal plant weithredu a bod yn gynaliadwy. Mae enghreifftiau o sut y gallent fynd i'r afael â bylchau yn cynnwys y canlynol:

- darparu hyfforddiant a chymorth busnes i helpu darparwyr gofal plant i weithredu'n effeithlon,
- darparu gwybodaeth am y farchnad i ddarparwyr,
- cefnogi rhwydweithiau o ddarparwyr a chysylltiadau rhyngddynt,
- gweithio gyda sefydliadau partner a sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector gofal plant i greu cymhellion penodol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

2.12 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau gofal plant dibynadwy am gyfnod digon hir i alluogi rhieni i weithio neu ddysgu. Dylid ystyried y ddarpariaeth gofal plant, lleoliad y ddarpariaeth a hyd y sesiynau sydd ar gael ar draws pob un o'r mathau o ofal plant wrth ddiwallu anghenion gan rieni a'r galw.

2.13 Mae'r geiriau *"reasonably practicable"* yn Neddf 2006 yn caniatáu i awdurdodau lleol ystyried eu hadnoddau a'u galluoedd wrth benderfynu pryd i ymyrryd i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant. Bydd rhaid i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion cyn belled ag y gallant o fewn y cyfyngiadau hynny, ond mae'n caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd – bydd yr hyn a allai fod yn ymarferol yn dibynnu ar amgylchiadau penodol awdurdod lleol.

2.14 Mae gan awdurdodau lleol, drwy adran 23 o'r Ddeddf, y pŵer i gynorthwyo unrhyw ddarparwr gofal plant neu ddarpar ddarparwr gofal plant, a gwneud trefniadau ag ef, at ddibenion sicrhau digonolrwydd.

**Adran 26 – Y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu'r ddarpariaeth gofal plant**

2.15 Mae 'Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2026' yn diwygio 'Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016'. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 26 o Ddeddf 2006, ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi asesiadau o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant (Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant) yn eu hardal a'u hadolygu'n gyson.

## RHAN 2: Gofynion adrodd ac amserlenni ar gyfer Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant

2.16 Mae'r rhan hon yn amlinellu diben Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ac yn rhoi gwybodaeth am y broses o gyflwyno Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny.

**Beth yw Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant?**

2.17 Prif ddiben Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn unol â 'Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2026' a 'Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016' yw helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol o dan Reoliad 3 (a amlinellir ym mharagraff 2.7). Mae Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn galluogi awdurdodau lleol i lunio cynlluniau strategol hirdymor ac maent hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth i Lywodraeth Cymru am y tueddiadau, y problemau a'r heriau sy'n bodoli ledled Cymru, gan ychwanegu gwerth at yr wybodaeth a gedwir yn genedlaethol a sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn addas at y diben.

2.18 Rhaid i Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant awdurdod lleol fesur natur a graddau'r angen am ofal plant, a'r gofal plant a gyflenwir, yn ardal yr awdurdod lleol. Drwy'r dadansoddiad hwn, bydd awdurdodau lleol yn gallu nodi bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant lle nad yw anghenion rhieni'n cael eu diwallu. Bydd hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio sut i gefnogi'r farchnad i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd ar lefel gymunedol.

2.19 Rhaid cyflwyno Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ochr yn ochr â Chynllun Gweithredu. O dan y ddyletswydd i sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol, dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant sy'n mynd i'r afael â'r diffygion ac yn cynnal y cryfderau a nodwyd yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, a rhoi'r cynlluniau hynny ar waith. Rhaid adolygu a diweddaru Cynlluniau Gweithredu Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn barhaus, ac adrodd arnynt yn flynyddol drwy adroddiadau cynnydd. Bob blwyddyn, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y cynllun gweithredu tuag at ddarparu darpariaeth gofal plant ddigonol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

2.20 Er mwyn sicrhau lefelau ymgysylltu digonol gan amrywiaeth o bartneriaid ac ar draws meysydd polisi a chyflawni awdurdodau lleol, a chyflawni'r ddyletswydd i asesu a sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol ac adolygu cynlluniau gweithredu yn barhaus, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol am sefydlu Grŵp Monitro Digonolrwydd Gofal Plant neu grŵp cyfatebol os bydd o'r farn bod angen gwneud hynny.

2.21 Gall y grŵp hwn gefnogi'r awdurdod lleol i gyflawni'r dyletswyddau i asesu, cynllunio a sicrhau gofal plant digonol yn ei ardal, ac annog ymgysylltiad a chymorth i sicrhau digon o ofal plant i ddiwallu anghenion rhieni.

**Y trefniadau adrodd ar gyfer cwblhau Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant**

2.22 Rhaid i awdurdodau lleol gwblhau Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant bob pum mlynedd, fel y nodir yn y Rheoliadau. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau a chyflwyno copi o'r dogfennau canlynol i Weinidogion Cymru:

1. **Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant** – Rhaid i hwn fod yn asesiad llawn o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol. Anogir awdurdodau lleol i ddrafftio'r adroddiad ar yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant gan ddefnyddio'r Templed ar gyfer Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (Atodlen 4); ond gallant gynnwys adrannau ychwanegol sy'n berthnasol i'w Hasesiad.

   Bydd angen cyhoeddi'r Asesiad drafft ar wefan yr awdurdod lleol am gyfnod o 28 o ddiwrnodau er mwyn rhoi digon o amser i'r personau a'r grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wneud sylwadau arno. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd angen i awdurdodau lleol adolygu a diwygio'r ddogfen yn unol â hynny.

Yna dylid cyhoeddi'r fersiwn derfynol ar wefan yr awdurdod lleol a chadarnhau bod y cyfnod o 28 o ddiwrnodau wedi ei gyflawni ar ôl cyflwyno'r adroddiad terfynol.

2. **Cynllun Gweithredu** – Rhaid i hwn gael ei gyflwyno a'i gyhoeddi ar y cyd â'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, a rhaid iddo fanylu ar y camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir i gynnal y cryfderau a mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Ceir templed yn Atodlen 5.

3. **Adroddiad Cynnydd a Gwaith Monitro Blynyddol** – Rhaid cyflwyno'r adroddiad cynnydd a Chynllun Gweithredu wedi ei ddiweddaru i Weinidogion Cymru bob blwyddyn. Ceir templed ar gyfer adroddiad yn Atodlen 6. Rhaid iddo fanylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir yn y cynllun gweithredu, gan gynnwys unrhyw broblemau neu newidiadau sylweddol sydd wedi codi neu ddigwydd dros y flwyddyn, sydd wedi effeithio ar y farchnad gofal plant neu wedi dylanwadu arni mewn unrhyw ffordd, ee datblygiad cyflogaeth, neu ddatblygiad tai. Yn benodol, bydd angen i awdurdodau lleol gysylltu â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf am y cyflenwad gofal plant a'r galw amdano.

   Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu a diweddaru'r cynllun gweithredu os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Caiff cyfarfodydd monitro blynyddol eu cynnal â swyddogion Llywodraeth Cymru ar ôl i'r adroddiad a'r Cynllun Gweithredu wedi ei ddiweddaru gael eu cyflwyno. Ceir rhagor o fanylion am y gwaith o fonitro Cynlluniau Gweithredu Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ac Adroddiadau Cynnydd ym Mhennod 3.

**Cyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru**

2.23 Rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, y Cynlluniau Gweithredu a'r Adroddiadau Cynnydd i Weinidogion Cymru erbyn y dyddiadau a nodir isod:

| | |
|---|---|
| 30 Mehefin 2027 | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a Chynllun Gweithredu |
| 30 Mehefin 2028 | Cynllun Gweithredu wedi ei ddiweddaru ac Adroddiad Cynnydd |
| 30 Mehefin 2029 | Cynllun Gweithredu wedi ei ddiweddaru ac Adroddiad Cynnydd |
| 30 Mehefin 2030 | Cynllun Gweithredu wedi ei ddiweddaru ac Adroddiad Cynnydd |
| 30 Mehefin 2031 | Cynllun Gweithredu wedi ei ddiweddaru ac Adroddiad Cynnydd |

2.24 Bydd pob cylch adrodd dilynol ar gyfer Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn dilyn y dilyniant pum mlynedd hwn, oni fydd Llywodraeth Cymru yn cynghori fel arall.

## RHAN 3: Datblygu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

2.25 Mae Rhan 3 yn amlinellu'r meysydd i'w hystyried wrth ddatblygu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Mae wedi ei rhannu'n bedair is-adran:

a) **Cynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant**
Mae'r is-adran hon yn amlinellu'r gofynion allweddol wrth adrodd ar Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant: y gwasanaethau gofal plant y dylid eu cynnwys a'r gofyniad i sicrhau ymgysylltiad o bob rhan o ardal yr awdurdod lleol.

b) **Deall a Defnyddio Data**
Mae'r is-adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y defnydd o ddata, gan gynnwys data gweinyddol a data a gesglir yn lleol. Mae hefyd yn amlinellu pwyntiau ar ddehongli data i'w defnyddio yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

c) **Themâu i'w Cynnwys**
Mae'r is-adran hon yn amlinellu'r meysydd i'w cynnwys yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, sy'n gysylltiedig â'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau.

d) **Themâu i'w Hystyried**
Mae'r is-adran hon yn nodi meysydd pellach y gall awdurdodau lleol fod am eu hystyried.

### a) <u>Cynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant</u>

**Mathau o Ofal Plant a Gwasanaethau a Ddarperir**

2.26 Wrth gynnal yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar y mathau amrywiol o ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael. Gallant hefyd ystyried darpariaeth gofal plant sydd wedi ei heithrio rhag cofrestru, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y Rheoliadau (gweler paragraff 2.79 Darpariaeth Anghofrestredig).

2.27 Dyma'r mathau o ofal plant i'w hystyried:
- Gwarchod Plant
- Gofal Dydd Llawn
- Gofal Dydd Sesiynol
- Crèche
- Gofal y Tu Allan i'r Ysgol
- Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored

- Nani / Darparwr Gofal Plant Cymeradwy yn y Cartref.

2.28 Bydd angen i'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant gynnwys yr amrywiaeth o wasanaethau gofal plant a ddarperir er mwyn deall y gofal plant sydd ar gael mewn perthynas ag anghenion rhieni yn ardal yr awdurdod lleol.

2.29 Mae Atodlen 3 yn rhoi diffiniad o'r gwasanaethau gofal plant y mae angen eu hystyried yn erbyn pob un o'r mathau o ofal plant, a rhai enghreifftiau.

**Gwaith Partneriaeth, Cyfranogiad ac Ymgysylltu**

2.30 Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio nifer o ffynonellau data cynradd ac eilaidd i gwblhau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Gall Llywodraeth Cymru gefnogi awdurdodau lleol a chynghori ar ffynonellau data addas, ond mae'n debygol y bydd angen i awdurdodau lleol ategu data sy'n bodoli eisoes â data ansoddol ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a phobl eraill yn eu hardal. Gall hyn gynnwys ymgysylltu â grwpiau cymunedol neu elusennau drwy strategaethau wedi eu targedu, grwpiau ffocws, cydweithio ag asiantaethau partner, a chynnwys eiriolwyr cymunedol dibynadwy i gasglu rhagor o wybodaeth a thystiolaeth gan is-boblogaethau penodol neu feysydd penodol o ddiddordeb. Ceir rhestr fanwl, ond nad yw'n hollgynhwysfawr, o randdeiliaid y mae rhaid, neu y ceir, ymgynghori ac ymgysylltu â hwy yn Atodlen 2.

2.31 Mae ymgysylltu effeithiol yn un o elfennau craidd yr asesiad digonolrwydd a bydd yn rhoi cyfle i'r rheini a chanddynt fuddiant mewn gofal plant dynnu sylw at broblemau neu bryderon perthnasol.

2.32 Mae marchnadoedd gofal plant yn tueddu i fod yn lleol iawn. Bydd angen i'r asesiad gwmpasu ardal gyfan yr awdurdod lleol a dylai ystyried patrwm y galw a'r cyflenwad drwyddi draw. Dylai nodi bylchau penodol ar gyfer grwpiau penodol a mathau penodol o ofal plant mewn ardaloedd daearyddol llai, er mwyn sicrhau bod gofal plant digonol ar gael ledled yr awdurdod lleol.

2.33 Yn ogystal â defnyddio'r ffynonellau data gweinyddol sydd ar gael, fel data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), bydd disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau cyfraniad digonol gan amrywiaeth o bartneriaid a sefydliadau wrth gyflawni eu dyletswydd i asesu, cynllunio a sicrhau digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal.

2.34 Mae gan sefydliadau cenedlaethol sy'n cynrychioli'r sector gofal plant a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, er enghraifft, gyfraniad allweddol i'w wneud wrth helpu awdurdodau lleol i gynllunio a diogelu digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal.

2.35 Yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau partner, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau mewnbwn digonol gan feysydd polisi a chyflawni perthnasol eraill yr awdurdod lleol, gan gynnwys y Gymraeg, addysg, y

blynyddoedd cynnar, chwarae, cynllunio, tai, trafnidiaeth a gofal cymdeithasol. Dylid ystyried sut mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, a gaiff eu hadolygu'n flynyddol.

2.36 Mae deall safbwyntiau ac anghenion plant, rhieni a gofalwyr yn allweddol i ddatblygu'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Er mwyn i ddarpariaeth gofal plant fodloni gofynion plant, rhieni, gofalwyr a theuluoedd, mae'n hanfodol bod eu safbwyntiau ynglŷn â'r hyn sydd ei angen arnynt gan ddarpariaeth gofal plant yn llywio penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Wrth asesu digonolrwydd gofal plant, disgwylir i awdurdodau lleol ymgysylltu â phlant, rhieni a gofalwyr a chasglu eu safbwyntiau.

2.37 Mae adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010[6] yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i annog a hwyluso plant i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu mynegi eu safbwyntiau, a bod y safbwyntiau hynny'n cael eu hystyried wrth drafod materion sy'n ymwneud â hwy. Mae adrannau 5 a 7 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[7] yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnwys pobl y mae eu penderfyniadau yn effeithio arnynt, gan gynnwys plant.

2.38 Wrth ymgysylltu â phlant, dylid hwyluso methodolegau cyfranogi mewn ffordd sy'n ymateb i oedran, aeddfedrwydd a gallu'r plant dan sylw. Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol[8] yn cynnig canllaw ar sut i sicrhau prosesau o ansawdd uchel ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Maent yn nodi'r materion allweddol y dylai gweithwyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru, gan amlinellu'r camau gweithredol y gellir eu cymryd i sicrhau bod cyfranogiad yn ystyrlon, yn ddiogel ac yn gynhwysol. Ceir enghreifftiau o arferion cyfranogi da yng nghanllaw arfer da[9] Llywodraeth Cymru.

2.39 Hefyd, mae Y Ffordd Gywir[10] yn cynnig fframwaith a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ac Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer gweithio gyda phlant, yn seiliedig ar CCUHP er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i integreiddio hawliau plant i bob agwedd ar brosesau gwneud penderfyniadau, polisïau ac ymarfer. Mae Y Ffordd Gywir yn ymgorffori'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, ac mae pob un o ganllawiau Y Ffordd Gywir yn cynnig enghreifftiau ymarferol defnyddiol o sut beth yw cyfranogiad o ansawdd da, gan gynnwys yn ystod y blynyddoedd cynnar ac wrth weithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

---

[6] Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
[7] Adrannau 5 a 7 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[8] Safonau cyfranogiad cenedlaethol plant a phobl ifanc | LLYW.CYMRU
[9] canllaw-arfer-da.pdf
[10] Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru – Comisiynydd Plant Cymru

2.40 Mae Plant yng Nghymru[11] wedi datblygu fideos ac adnoddau hyfforddi ac mae'n cynnig man cychwyn i helpu i sicrhau bod lleisiau babanod a phlant bach iawn yn cael eu clywed. Gallai awdurdodau lleol ymgysylltu â Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan sy'n darparu lle i gynrychiolwyr o bob awdurdod lleol rannu arferion da, yn cynnig cyfleoedd cydweithio ac yn datblygu adnoddau mewn perthynas â chyfranogiad plant ar lefel leol.

## b) <u>Deall a Defnyddio Data</u>

2.41 Mae'r adran hon yn rhoi cyngor pellach ar ddefnyddio data gweinyddol, data y gall fod angen eu casglu'n lleol a phwyntiau ar ddehongli data i'w defnyddio yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

### Adolygu data eilaidd

2.42 Gall awdurdodau lleol ddefnyddio nifer o ffynonellau data eilaidd er mwyn deall natur y gofal plant a gyflenwir, y galw amdano a'r rhwystrau a wynebir yn eu hardal.

2.43 O ran darpariaeth gofrestredig, mae AGC yn darparu data i awdurdodau lleol a gesglir gan ddarparwyr gofal plant rheoleiddiedig fel rhan o broses y datganiadau hunanasesu gwasanaeth blynyddol. Mae hyn yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n bodoli rhwng AGC a'r awdurdodau lleol sy'n amlinellu'r protocol ar gyfer rhannu a lledaenu gwybodaeth. Dylai awdurdodau lleol hyrwyddo pwysigrwydd cwblhau'r datganiad hunanasesu gwasanaeth blynyddol wrth lywio proses yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant i bob darparwr gofal plant rheoleiddiedig.

2.44 Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth data i awdurdodau lleol ac yn cadarnhau natur y cymorth hwn yn ystod y 12 mis cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Asesiad.

2.45 Bydd angen i awdurdodau lleol feddu ar ddealltwriaeth glir o ddemograffeg eu poblogaeth leol, yn enwedig ffactorau a thueddiadau a fydd yn cynyddu'r galw am ofal plant. Gallai hyn gynnwys nifer y plant 12 oed ac iau a sut mae hyn wedi newid dros amser.

2.46 Wrth lunio'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, efallai y bydd awdurdodau lleol am ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer eu hardal. Mae hyn yn aml yn cynnwys gwybodaeth am anghenion cymunedol, tueddiadau demograffig a blaenoriaethau lleol.

[11] Adnoddau Blynyddoedd Cynnar Plant yng Nghymru

**Casglu Data Lleol**

2.47 Yn ychwanegol at ddata eilaidd, fel y nodir uchod bydd angen casglu rhagor o wybodaeth drwy gasglu gwybodaeth a data lleol.

2.48 Bydd angen i awdurdodau lleol ddeall y rhwystrau a wynebir gan deuluoedd. Fel y nodir yn y Rheoliadau, bydd hyn yn cynnwys:

- rhieni sy'n gweithio (gan gynnwys teuluoedd yn y Lluoedd Arfog)
- rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi
- aelwydydd di-waith
- teuluoedd incwm isel
- teuluoedd rhiant unigol
- teuluoedd o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- teuluoedd â phlant a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, neu anabledd.

2.49 Bydd angen deall y nodweddion hyn drwy arolygon rhieni a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gall Llywodraeth Cymru helpu awdurdodau lleol i gynnal arolygon rhieni.

2.50 Yn aml, bydd cyflogaeth yn dylanwadu ar y galw am ofal plant. Pan fydd prif ffynonellau cyflogaeth yn agor, yn cau, yn ehangu neu'n lleihau, gall effeithio ar batrymau gwaith rhieni a'u galw am ofal plant, felly dylid ystyried hynny wrth gynnal yr asesiad. Dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried cynlluniau a chynigion i ddatblygu eiddo yn yr ardal a all effeithio ar gyfansoddiad a dwysedd y boblogaeth.

**Dehongli data**

2.51 Mae Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn adlewyrchu'r data sydd ar gael ar yr adeg y bydd awdurdodau lleol yn eu cwblhau. Gall data fel gwybodaeth o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth AGC, gwybodaeth leol a ffynonellau gwybodaeth eraill fod yn ddigon i fodloni gofynion y Rheoliadau. Mae'r ffynonellau gwybodaeth hyn hefyd yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol gadarn o'r sefyllfa ym mhob awdurdod lleol. Dylai'r cynllun gweithredu a'r adroddiadau cynnydd ddefnyddio data a gwybodaeth flynyddol er mwyn sicrhau bod modd nodi patrymau a thueddiadau parhaus, fel y gall adroddiadau cynnydd blynyddol ymateb i faterion lleol.

2.52 Mae rhai pwyntiau allweddol i'w hystyried wrth ddehongli data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth AGC yn cynnwys y canlynol:

- Gellir ystyried mai ystyr capasiti yw nifer y plant y mae gwasanaeth wedi ei gofrestru i ofalu amdanynt.
- Mae gofal plant a ariennir yn cyfeirio at ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant Cymru neu Addysg Feithrin, neu unrhyw ddarpariaeth arall a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.
- Gellir pennu defnydd iaith yn ôl Prif Iaith Weithredu gwasanaeth gofal plant a chwarae fel y'i cofnodwyd wrth gofrestru ag AGC.
- Caiff lleoedd gwag/heb eu llenwi a phlant sydd ar restrau aros eu cofnodi yn Natganiadau Hunanasesu Gwasanaeth AGC ar gyfer pob math o

wasanaeth a ddarperir. Gellir meithrin dealltwriaeth o'r rhesymau dros swyddi gwag drwy gasglu gwybodaeth leol ac ymgysylltu â gwasanaethau.
- Gellir pennu ystod oedran y plant sy'n defnyddio gwasanaethau gofal plant yn ôl y dull rheoleiddio gan ddefnyddio data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth AGC, sy'n cofnodi nifer y plant o bob oedran sy'n defnyddio pob gwasanaeth.

## c) Themâu i'w Cynnwys

2.53 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r themâu i'w cynnwys yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Mae'r rhain yn ymwneud yn benodol â'r meysydd a amlinellir yn y Rheoliadau.

### Dadansoddiad o'r galw, y cyflenwad a'r bylchau

2.54 Mae'n debygol y bydd darpariaeth gofal plant yn ddigonol lle na fydd y galw yn sylweddol fwy na'r cyflenwad. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, gall awdurdodau lleol ystyried elfennau'r galw am ofal plant, gan ystyried y canlynol o leiaf:
- asesiad o restrau aros y darparwr gofal plant a'r rhesymau drostynt,
- ystod oedran y plant yn y mathau o wasanaethau gofal plant a bennir yn rheoliad 2(2)[12],
- yr ystod o ffioedd cyfartalog fesul awr a godir am ofal plant; ac
- asesiad o'r galw am ofal plant yn eu hardal, gan gynnwys effaith unrhyw newid yn nifer y canlynol:
    - plant sy'n defnyddio gwasanaethau gofal plant
    - plant sy'n defnyddio gwasanaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg
    - plant a chanddynt angen dysgu ychwanegol
    - effaith newid yn y boblogaeth
    - unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r galw ym marn yr awdurdod lleol.

2.55 Rhaid i awdurdodau lleol hefyd asesu'r gofal plant a gyflenwir yn eu hardal, gan ystyried y canlynol o leiaf:
- capasiti'r gwasanaethau gofal plant a ddarperir gan ddarparwyr gofal plant
- nifer y plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd
- capasiti darparwyr gofal plant sy'n gallu cefnogi plant a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd
- capasiti darparwyr gofal plant sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gofal plant a ariennir
- capasiti gwasanaethau sy'n cynnig lleoedd Cymraeg
- nifer y lleoedd gwag/heb eu llenwi a'r rhesymau drostynt
- asesiad o restrau aros y darparwr gofal plant a'r rhesymau drostynt

[12] Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016

- yr amrywiaeth o wasanaethau a gynigir gan bob un o'r mathau o wasanaethau gofal plant
- ystod oedran y plant yn y mathau o wasanaethau gofal plant a bennir yn rheoliad 2(2)
- yr ystod o ffioedd cyfartalog fesul awr a godir am ofal plant.

2.56 Gellir dod o hyd i ddata sy'n berthnasol i'r eitemau hyn yn Natganiadau Hunanasesu Gwasanaeth AGC. At hynny, gall awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu, gwybodaeth leol neu ddata ychwanegol a gasglwyd i nodi unrhyw anghenion penodol heb eu diwallu.

2.57 Os bydd unrhyw anghenion gofal plant heb eu diwallu wedi eu nodi yn ardal yr awdurdod lleol, rhaid i'r asesiad gynnwys dadansoddiad o'r anghenion hynny nad ydynt wedi eu diwallu, fel:

- y mathau a'r amrywiaeth o wasanaethau gofal plant nad ydynt ar gael,
- oedran y plant,
- yr adegau pan nad oes gofal plant ar gael,
- lleoliad gofal plant,
- y ddarpariaeth ar gyfer plant a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd,
- y ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yn Gymraeg,
- y ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael mewn ieithoedd eraill,
- lleoedd gofal plant a ariennir,
- unrhyw ffactorau eraill.

2.58 Dylai awdurdodau lleol hefyd nodi rhwystrau i gael darpariaeth gofal plant yn eu hardal, gan ystyried y canlynol o leiaf:

- hygyrchedd y ddarpariaeth gofal plant
- a yw cost gofal plant yn atal rhieni rhag defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael,
- y rhwystrau a wynebir gan y canlynol:
  - rhieni sy'n gweithio (gan gynnwys teuluoedd yn y Lluoedd Arfog)
  - rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi
  - aelwydydd di-waith
  - teuluoedd incwm isel
  - teuluoedd rhiant unigol
  - teuluoedd o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
  - teuluoedd â phlant a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol,
- unrhyw rwystrau eraill a nodwyd.

2.59 Gellir casglu'r wybodaeth hon drwy wybodaeth leol, ymgysylltu a chasglu data sydd ar gael, gan roi sylw arbennig i safbwyntiau rhieni.

**Y Gymraeg**

2.60 Mae Deddf 2006 yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau gofal plant digonol yn eu hardal i alluogi rhieni i ddechrau gweithio neu aros mewn gwaith, neu i ymgymryd ag addysg a hyfforddiant er mwyn cael gwaith. Wrth benderfynu a yw'r ddarpariaeth gofal plant yn

ddigonol i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canlynol: “the provision of childcare involving the use of the Welsh language.” Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg o safbwynt Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yr awdurdod lleol a'r nodau ac amcanion ar gyfer darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a nodir ynddi.

2.61 Wrth ystyried y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, dylid ystyried y ffactorau canlynol fel dangosyddion ar gyfer y tebygolrwydd y bydd mwy o alw am ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y dyfodol:

- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yr awdurdod lleol.
- Effaith newid ar nifer y lleoedd sydd ar gael mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Y galw presennol am leoedd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Y newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg ifanc.
- Y newid yn nifer presennol y plant sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg.
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.
- Unrhyw ddatblygiadau economaidd neu dai ar raddfa fawr.
- Canlyniadau arolygon a gynhaliwyd i asesu'r galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg.

2.62 Bydd meithrin dealltwriaeth o lefelau presennol y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a chapasiti'r ddarpariaeth honno yn allweddol wrth gynllunio i ddiwallu'r galw presennol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a'r galw yn y dyfodol. Ystyrir bod iaith darpariaeth yn ffactor pwysig i'w bennu, yn enwedig o ran darparu gwybodaeth gywir i rieni i'w helpu i ddewis.

2.63 Er mwyn hwyluso'r broses o gasglu a choladu data, manylir ar y disgrifiadau ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant yn Atodlen 1.

2.64 Bydd awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth er mwyn sefydlu a chynnal llinell sylfaen ar gyfer y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gyfredol drwy'r data a geir o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth AGC yn ogystal â gwybodaeth a gesglir yn lleol.

2.65 Gall awdurdodau lleol roi disgrifiad naratif sy'n adeiladu ar amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i ddisgrifio'r canlynol: capasiti gwasanaethau, yn unol â'r categorïau Cymraeg; nifer y plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd; ac asesiad o newid yn nifer y plant sy'n defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg. Bydd angen i awdurdodau lleol ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys data sydd ar gael a gwybodaeth leol.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

2.66 Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018[13], ynghyd â'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol[14], yn darparu'r system statudol ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc. Ar gyfer plant o dan oedran ysgol, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am asesu a oes gan blentyn ADY a phenderfynu pa Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) y dylid ei rhoi ar waith.

2.67 Gellir ystyried bod gwasanaethau gofal plant yn gallu cefnogi plant a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol neu blant y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd os byddant wedi nodi yn Natganiad Hunanasesu Gwasanaeth AGC fod ganddynt staff sydd wedi cael hyfforddiant addas a'u bod yn ymwybodol o'r Cod ADY a'r gweithdrefnau perthnasol.

2.68 Dylai awdurdodau lleol hefyd roi disgrifiad naratif o'r capasiti i gefnogi plant ag ADY a/neu anabledd yn seiliedig ar wybodaeth leol, gan gynnwys gwybodaeth am gapasiti staff, hyfforddiant a chyfarpar ac adnoddau.

2.69 O ran y galw, awgrymir y dylai awdurdodau lleol ddarparu amcangyfrif gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau fel gwybodaeth a gedwir gan yr awdurdod lleol am Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU). Awgrymir hefyd y gall gwybodaeth am iechyd ac addysg a gedwir gan awdurdodau lleol helpu i lywio'r asesiad.

2.70 Gall awdurdodau lleol weithio gyda Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar i gasglu'r wybodaeth hon. Mae'r Cod ADY yn nodi mai ystyr Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar yw: *swyddog a ddynodir yn unol ag adran 62 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 gan awdurdod lleol i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ran 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir.*

2.71 Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am ddatblygu CDUau, sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen a bod yn ffynhonnell arbenigedd ar ADY a'r system ADY. Mae’n gweithio'n agos gyda gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol i gyflawni ei rôl.

## Dosbarthiad Daearyddol

2.72 Rhaid i'r asesiad gynnwys dadansoddiad o ddosbarthiad daearyddol pob math o ofal plant yn ardal yr awdurdod lleol ac unrhyw fylchau yn y dosbarthiad daearyddol hwnnw.

2.73 Mae gwybodaeth leol yn hanfodol i ddehongli anghenion demograffig a daearyddol, gan nad yw bylchau amlwg yn y ddarpariaeth o bosibl yn

[13] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
[14] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2026-04/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf

adlewyrchu'r galw gwirioneddol oherwydd ffactorau fel patrymau cyflogaeth lleol neu'r defnydd o ddarpariaeth siroedd cyfagos. Nodir yr amrywiaeth o randdeiliaid posibl y dylid ymgysylltu â hwy er mwyn gwella'r wybodaeth honno yn Atodlen 2.

2.74 Wrth fwrw ymlaen â gweithgareddau yn unol â'u dyletswyddau i asesu digonolrwydd gofal plant o dan Ddeddf Gofal Plant 2006, rhaid i awdurdodau lleol ystyried Cyfamod y Lluoedd Arfog.

**Darpariaeth drawsffiniol**

2.75 Weithiau bydd dewis rhieni o ran gofal plant cyfleus yn golygu eu bod yn defnyddio lleoedd mewn awdurdod lleol gwahanol i'w hawdurdod eu hunain. Gallai hyn fod yng Nghymru neu yn Lloegr. Yn unol â hynny, wrth gynnal eu hasesiad, dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion y rhai sy'n defnyddio gofal plant y tu allan i'w hardal yn ogystal â'r rhai sy'n teithio i'w hardal i ddefnyddio gofal plant. Dylai awdurdodau lleol ystyried ymgynghori â'u hawdurdodau lleol cyfagos i asesu'r niferoedd dan sylw a sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad.

**Cynaliadwyedd**

2.76 Rhaid i'r asesiad ystyried cynaliadwyedd y farchnad gofal plant, gan gynnwys unrhyw ffactorau sydd wedi effeithio ar gynaliadwyedd darparwyr gofal plant presennol. Gellir ystyried y ffactorau canlynol:

- Gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru
- Grantiau/cyllid uniongyrchol ar gyfer darparwyr gofal plant
- Cymorth gan Lywodraeth y DU i rieni, fel defnyddwyr gofal plant (credyd cynhwysol, gofal plant â chymorth cyflogwr, gofal plant di-dreth)
- Patrymau cofrestru a chanslo AGC.

**Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu**

2.77 Rhaid i'r asesiad gynnwys dadansoddiad o unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â datblygu'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol, gan gynnwys cymwysterau a hyfforddiant presennol y gweithlu, ac amlinelliad o'r ffordd yr ymdrinnir â'r materion hyn.

## d) <u>Themâu i'w Hystyried</u>

2.78 Mae'r adran hon yn amlinellu themâu y gall fod angen i rai awdurdodau lleol eu hystyried.

**Darpariaeth Anghofrestredig**

2.79 Wrth gynnal yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, gofynnir i awdurdodau lleol ystyried rôl a pherthnasedd darpariaeth gofal plant yn eu hardal sydd wedi ei heithrio rhag cofrestru. Er nad oes unrhyw ofyniad i gynnwys

darpariaeth anghofrestredig yn yr Asesiad, os ystyrir bod darpariaeth anghofrestredig yn bwysig i'r cyflenwad yn eu hardal leol, efallai y bydd awdurdodau lleol am adlewyrchu hyn yn eu Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

2.80 Byddai'r ddarpariaeth anghofrestredig sydd i'w chynnwys wedi ei chyfyngu i ddarpariaeth sy'n cefnogi rhieni i ymgymryd â gwaith neu hyfforddiant. Darpariaeth fel clybiau cyn ac ar ôl ysgol, a chlybiau gwyliau, fyddai hyn fel arfer.

2.81 Nid oes llawer o ffynonellau data ar gael ar y ddarpariaeth anghofrestredig. O ganlyniad, os bydd awdurdodau lleol am gynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth anghofrestredig yn eu hasesiad, efallai y bydd angen iddynt gasglu data a gwybodaeth leol. Gallai hyn gynnwys ystyried Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

2.82 Gellid hefyd ystyried darpariaeth gofal plant sydd wedi ei heithrio rhag y gofyniad gorfodol i gofrestru ond sy'n rhan o gynllun cymeradwyo gwirfoddol, ac eithrio nanis a gymeradwywyd o dan Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) y mae rhaid eu cynnwys yn yr Asesiad.

### Dyletswydd gyfreithiol Cyfamod y Lluoedd Arfog

2.83 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog a'r bwriadau ym Mil y Lluoedd Arfog 2026[15]. Un o fesurau allweddol y Bil yw ymgorffori Cyfamod y Lluoedd Arfog yn llawn yn y gyfraith ac ymestyn y ddyletswydd i amrywiaeth o bolisïau a meysydd sector, sy'n cynnwys gofal plant.

2.84 Mae dyletswydd y Cyfamod yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol i '*roi sylw'* dyledus i egwyddorion y Cyfamod. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau am ddatblygu a darparu gwasanaethau penodol gael eu gwneud gan ystyried anghenion cymuned y Lluoedd Arfog. Amlinellir dyletswydd bresennol Cyfamod y Lluoedd Arfog isod:

*"Pan fydd corff penodol yn arfer swyddogaeth berthnasol, rhaid iddo roi sylw dyledus i'r canlynol:*

- *rhwymedigaethau unigryw'r Lluoedd Arfog, a'r aberthau a wneir ganddynt;*
- *yr egwyddor ei bod yn ddymunol* ***cael gwared ar yr anfanteision*** *sy'n deillio o aelodaeth, neu aelodaeth flaenorol, o'r Lluoedd Arfog; ac*
- *yr egwyddor y gall effeithiau aelodaeth, neu gyn-aelodaeth, o'r Lluoedd Arfog gyfiawnhau* ***darpariaeth arbennig*** *i'r aelodau neu'r cyn aelodau hynny"*[16].

[15] Bil y Lluoedd Arfog – Biliau Seneddol – Senedd y DU
[16] Dyletswydd Gyfreithiol y Cyfamod – Cyfamod y Lluoedd Arfog

Cwmpas y ddyletswydd gyfreithiol

2.85 Mae'r ddyletswydd wedi bod ar waith ers mis Tachwedd 2022 ac mae'n gymwys yng Nghymru i'r cyrff cyhoeddus canlynol:

- Awdurdodau Lleol
- Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir
- Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig, ac Ymddiriedolaethau'r GIG

2.86 Mae Bil 2026 yn ymestyn y ddyletswydd gyfreithiol bresennol drwy ehangu'r ddyletswydd i adrannau'r DU a llywodraethau datganoledig, gan ychwanegu meysydd polisi ychwanegol, gan gynnwys gofal plant at y ddyletswydd gyfreithiol, ac mae'n diffinio egwyddor 'anfantais' mewn perthynas â'r Lluoedd Arfog am y tro cyntaf mewn deddfwriaeth sylfaenol.

2.87 Asesir a yw aelod o gymuned y Lluoedd Arfog wedi wynebu anfantais drwy gyfeirio at bobl '*eraill mewn amgylchiadau tebyg nad ydynt yn aelodau o'r Lluoedd Arfog'*.

2.88 Dylai awdurdodau lleol, yn enwedig y rheini a chanddynt gymunedau Lluoedd Arfog mawr, gynnwys asesiad o'r ddarpariaeth gofal plant ar gyfer y gymuned hon yn eu Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

# Pennod 3

## Monitro ac Adrodd ar Berfformiad yn Flynyddol

3.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r gofyniad i awdurdodau lleol fonitro ac adrodd ar eu perfformiad yn ystod oes yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

3.2 Mae Rheoliadau[17] a wnaed o dan adran 26 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu hasesiadau o'r ddarpariaeth gofal plant yn barhaus ac i gynnal asesiad digonolrwydd llawn newydd bob pum mlynedd. Bydd angen datblygu Cynllun Gweithredu fel rhan o'r asesiad hwn yn nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn gwella unrhyw feysydd sy'n peri pryder a nodwyd. Ceir templed ar gyfer Cynllun Gweithredu yn Atodlen 5, ond gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu fersiwn eu hunain os bydd yn well ganddynt.

3.3 Er mwyn gwella a/neu gynnal y cyfleoedd i blant gael darpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol, rhaid i Gynllun Gweithredu:

- nodi blaenoriaeth gymharol y camau gweithredu, a
- nodi erbyn pryd y bydd yr awdurdod lleol yn cwblhau'r camau gweithredu.

3.4 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fonitro eu cynnydd o ran sicrhau gofal plant digonol, yn enwedig eu llwyddiant o ran cau unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, drwy gwblhau a chyflwyno adroddiadau cynnydd a diweddariadau i Gynlluniau Gweithredu i Weinidogion Cymru bob blwyddyn erbyn 30 Mehefin.

3.5 Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio eu Cynlluniau Gweithredu fel sylfaen ar gyfer eu hadolygiad blynyddol, gan ddefnyddio ffynonellau data a gwybodaeth leol sy'n bodoli eisoes i adolygu cynnydd. Dylai'r adroddiad cynnydd fod yn glir ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a dylai amlinellu cyflawniadau, heriau parhaus, ac argymhellion ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol/camau gweithredu pellach yn erbyn y Cynllun Gweithredu blaenorol. Ceir templed ar gyfer Adroddiad Blynyddol yn Atodlen 6.

3.6 Dylai awdurdodau lleol dynnu sylw at unrhyw newidiadau yn natur y ddarpariaeth gofal plant, a'r galw amdani, gan fanylu ar y camau a gymerwyd i ymateb i'r newidiadau hyn. Mae hyn yn cynnwys dogfennu darparwyr newydd, achosion o gau lleoliadau, neu newidiadau mewn mathau o wasanaethau, yn ogystal â dadansoddi newidiadau yn y galw, fel mwy o angen am ofal plant hyblyg neu arbenigol.

3.7 Ar ôl cyflwyno eu hadroddiadau cynnydd a'u diweddariadau i'r Cynlluniau Gweithredu, bydd awdurdodau lleol yn cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i rannu arferion gorau, ceisio arweiniad neu eglurhad ar newidiadau polisi neu reoliadol, a chytuno ar y camau nesaf

[17] Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016

a'r camau dilynol i gefnogi'r cyflawniadau a'r heriau allweddol a nodwyd yn yr adroddiad cynnydd. Caiff unrhyw faterion amserol pellach sydd i'w trafod eu cadarnhau gan swyddogion cyn y cyfarfod cynnydd.

3.8 Dylai awdurdodau lleol geisio adborth gan amrywiaeth o ffynonellau yn yr ymarferion ymgynghori sy'n rhan o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant. Dylent hefyd ddefnyddio mathau eraill o adborth fel adborth gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol (mewn perthynas ag adran 22 o'r Ddeddf Gofal Plant), yn ystod y cyfnodau rhwng asesiadau er mwyn casglu barn rhieni pam nad yw gofal plant o bosibl yn diwallu eu hanghenion a chanfod i ba raddau yr ystyrir eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd o ran digonolrwydd gofal plant.

3.9 Bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gyswllt rhwng dyletswydd yr awdurdod lleol i sicrhau gofal plant digonol a'i ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth o dan adran 27 o'r Ddeddf Gofal Plant. Dylai Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol goladu'r wybodaeth y mae'n ei chael am rieni nad ydynt yn gallu cael gafael ar ofal plant, a'i rhannu â'r rhai sy'n gyfrifol am reoli'r dyletswyddau i asesu a sicrhau gofal plant digonol.

## Mynd i'r afael â phryderon

3.10 Ni ddisgwylir i awdurdodau lleol sefydlu gweithdrefn gwyno benodol mewn perthynas â'r dyletswyddau a gwmpesir gan y canllawiau hyn yn ychwanegol at eu gweithdrefnau presennol. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol ddarparu llwybr clir i rieni i'w galluogi i godi materion gofal plant. Dylai hyn fod yn broses syml a hawdd i rieni ei hadnabod.

# Pennod 4

## Pwerau awdurdodau lleol, trefniadau a thaliadau a godir (adrannau 23, 24 a 25)

4.1 Mae'r bennod hon yn nodi pwerau awdurdod lleol mewn perthynas â darparu gofal plant, y trefniadau rhwng yr awdurdod lleol a darparwyr gofal plant a'r taliadau a godir pan fo awdurdod lleol yn darparu gofal plant.

4.2 Mae pwerau awdurdod lleol mewn perthynas â darparu gofal plant wedi eu nodi o dan adran 23 o Ddeddf 2006. Mae adrannau 24 a 25 o'r Ddeddf yn nodi'r trefniadau rhwng yr awdurdod lleol a darparwyr gofal plant a'r taliadau a godir pan fo awdurdod lleol yn darparu gofal plant.

## Adran 23 – Pwerau awdurdod lleol mewn perthynas â darparu gofal plant

4.3 Mae adran 23 yn caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu gofal plant ac mae'n rhoi'r pwerau sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu'n effeithiol â darparwyr gofal plant er mwyn cyflawni'r ddyletswydd y mae'r Ddeddf hon yn ei rhoi arnynt i sicrhau gofal plant digonol. Mae'r pwerau hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i gynorthwyo darparwyr gofal plant, gan gynnwys y rhai yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol, neu i wneud trefniadau â hwy i ddiwallu anghenion rhieni a llenwi bylchau a nodwyd ganddynt yn y ddarpariaeth. Mae'r cymorth a roddir ar hyn o bryd yn cynnwys, er enghraifft, cyngor busnes a chyngor ar y farchnad, y defnydd o gyfleusterau, cydlynu rhwydweithiau, a grantiau a chymorth ariannol.

## Adran 24 – Trefniadau rhwng awdurdodau lleol a darparwyr gofal plant

4.4 Mae adran 24 yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn ymrwymo i gytundeb ariannol â darparwr er mwyn darparu gofal plant. O dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r awdurdod lleol arfer ei bwerau i sicrhau bod y darparwr yn bodloni unrhyw ofynion a osodir. Os caiff amodau penodol eu gosod ac na fydd y darparwr yn bodloni'r amodau hynny, gall yr awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i'r cymorth ariannol gael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol.

4.5 Wrth osod amodau lleol, argymhellir y dylai awdurdodau lleol ystyried y canllawiau hyn, sy'n cynnwys egwyddorion a gynlluniwyd i sicrhau cysondeb o ran ansawdd a safonau. Argymhellir hefyd y dylai awdurdodau lleol, wrth osod amodau lleol, ymgynghori â'u partneriaid cyflawni ac ystyried yr amodau'n ofalus, er mwyn osgoi unrhyw rai a allai eithrio neu beri anfantais i ddarparwr penodol neu grŵp o ddarparwyr.

4.6 Mae adran 24 yn sail i'r ddyletswydd i sicrhau gofal plant digonol gan ei bod hefyd yn gymwys pan fo awdurdodau lleol yn rhoi cymorth ariannol neu gymorth arall i ddarparwyr o dan adran 23. Mae adran 24 hefyd yn galluogi

awdurdodau lleol i osod amodau ar ddarparwyr a'i gwneud yn ofynnol iddynt ad-dalu cymorth ariannol os na chaiff yr amodau hynny eu bodloni.

## Adran 25 – Taliadau pan fo awdurdod lleol yn darparu gofal plant

4.7 Mae adran 25 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol godi tâl am ofal plant, gan sicrhau, pan fo'n briodol, bod awdurdodau lleol yn gallu talu costau'r ddarpariaeth a wneir. Mae rhai eithriadau; nid yw'r pŵer i godi tâl yn gymwys i ofal plant a ddarperir gan awdurdodau lleol o dan y ddyletswydd yn Neddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer plant mewn angen.

## Sicrhau Digonolrwydd Darpariaeth Gofal Plant

4.8 Er mwyn helpu i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf 2006, dylai awdurdodau lleol gyflwyno rhaglen i gefnogi lleoedd gofal plant newydd, grantiau cychwyn, rhaglen o grantiau cynaliadwyedd, gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd, a rhaglen o gymorth hyfforddiant ar ofal plant. Dylai awdurdodau lleol weithio gyda sefydliadau partner i fanteisio ar eu harbenigedd a'u cymorth wrth gyflawni eu dyletswyddau. Dylid rhoi sylw arbennig i anghenion gofal plant teuluoedd incwm isel, teuluoedd â phlant a chanddynt angen dysgu ychwanegol neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd, a theuluoedd sy'n dymuno cael gofal plant Cymraeg.

4.9 Efallai y bydd awdurdodau lleol am archwilio ffyrdd eraill y gellir cynnal y sector gofal plant, er enghraifft:

- Cynllun lleoedd â chymorth
- Cymhorthdal hyfforddiant
- Cymorth i leoliadau wneud cais am ffynonellau cyllid eraill, ee Plant mewn Angen, ffynonellau'r Loteri
- Annog lleoliadau i gydweithio a rhannu cyfarpar ag ysgolion.

## Hyfforddiant

4.10 Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio eu harian yn strategol i helpu darparwyr gofal plant i fodloni'r gofynion o ran cymwysterau yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ac, yn fwy cyffredinol, i wella ansawdd.

4.11 Dylai rhaglen hyfforddi effeithiol gynnwys elfennau fel:

- Diogelu
- Cymorth Cyntaf Pediatrig
- Cymwysterau cenedlaethol yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Gofal Plant/Gwaith Chwarae)
- Atal Tân
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Hylendid
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

- Ymgynghori â phlant a rhieni
- Cymorth busnes a threfniadau rheoli.

4.12 Dylai'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol gynnig gwybodaeth am gyfleoedd i gael hyfforddiant ar ofal plant.

## Pennod 5

## Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
## (Adran 27)

### Cyflwyniad

5.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r gofynion statudol a'r disgwyliadau a osodir ar awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd pob awdurdod lleol. Mae'n tynnu sylw at y dyletswyddau cyfreithiol o dan adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006[18], a ategir gan Reoliadau Gofal Plant (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008[19], ac yn darparu canllawiau ymarferol ar sut y dylid cyflawni'r dyletswyddau hyn yn ymarferol.

5.2 Mae'r bennod yn disgrifio rôl y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fel pwynt mynediad canolog at wybodaeth, cyngor a chymorth diduedd o ansawdd uchel i rieni a darpar rieni, gan gwmpasu gofal plant ac amrywiaeth ehangach o wasanaethau a chyfleusterau sy'n cefnogi llesiant babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

5.3 Wrth nodi'r disgwyliadau ar gyfer yr hyn y mae gwybodaeth yn ei gynnwys, dulliau cyflwyno, rheoli a sicrhau ansawdd, mae'r bennod hon yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru "*Cyflwyno Gwybodaeth o Safon i Deuluoedd Gyda'n Gilydd"* a'r Safonau Ansawdd Gofynnol ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i Gymru (yn Atodlen 7 i'r canllawiau statudol hyn). Dylai pob Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gyrraedd y safonau ansawdd gofynnol.

5.4 Yn y bennod hon, pan gyfeirir at 'rhiant' yn unig, mae hyn hefyd yn cynnwys darpar rieni.

## Y Cyd-destun Deddfwriaethol

### Adran 27 - Dyletswydd i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

5.5 Mae'r ddyletswydd o dan adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn atgyfnerthu'r uchod drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu a chynnal gwasanaeth sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Anogir awdurdodau lleol i ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaeth gwybodaeth integredig sy'n gweithredu fel pwynt mynediad canolog at wybodaeth, cyngor a chymorth i deuluoedd.

---

[18] Deddf Gofal Plant 2006
[19] Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008

5.6 Mae adran 27(2) o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn nodi bod rhaid i'r gwasanaeth ddarparu gwybodaeth i rieni neu ddarpar rieni yn unol â disgrifiad rhagnodedig.

5.7 Mae'r disgrifiad hwn wedi ei bennu mewn Rheoliadau – Rheoliadau Gofal Plant (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008 fel y'u diwygiwyd ("Rheoliadau 2008") y mae rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy. Gellir dweud bod yr wybodaeth yn perthyn i ddau gategori allweddol:

- Gofal plant (yn unol ag adran 27(2)(a)); a
- Gwasanaethau neu gyfleusterau eraill a all fod o fudd i rieni, darpar rieni, plant neu bobl ifanc (yn unol ag adran 27(2)(b) ac (c)).

5.8 Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut y gellir cyflawni'r ddyletswydd a osodir ar awdurdodau lleol yn ymarferol ac yn amlinellu'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer darparu gwybodaeth, sef:

- Gwasanaeth gwybodaeth integredig sy'n cyrraedd Safonau Ansawdd Gofynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Cymru (Atodlen 7).

Bydd yr wybodaeth leol a ddarperir:

- Yn hawdd ei deall ac yn adlewyrchu canfyddiadau ac anghenion rhieni
- Ar gael drwy amrywiaeth o leoliadau, safleoedd a sianeli a ddefnyddir gan rieni (canolfannau cyswllt, ysgolion, canolfannau plant integredig, clinigau, llyfrgelloedd, siopau, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol a ffôn)
- Ar gael mewn amrywiaeth o fformatau pan fo hynny'n briodol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Safonau'r Gymraeg

**5.9 Y disgwyl yw y bydd Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn gallu darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i rieni ar ofal plant, addysg feithrin a ariennir a darpariaeth sy'n seiliedig ar chwarae yn eu hardal. Ni ddisgwylir i Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd roi cyngor manwl ar wasanaethau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gofal plant, ond dylent allu cyfeirio rhieni at wybodaeth am wasanaethau lleol a chenedlaethol eraill fel y nodir yn Rhan 3 o Reoliadau 2008.** Bydd hyn yn helpu rhieni i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am wasanaethau lleol sy'n diwallu anghenion eu teulu orau.

5.10 Er nad yw wedi ei nodi yn adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006, mae'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol[20] yn cydnabod mai un o swyddogaethau craidd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yw rhoi arweiniad i ddefnyddwyr ei wasanaeth. Dylai'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd geisio parhau i gyflawni'r rôl hon.

---

[20] https://www.llyw.cymru/rhwydwaith-cynghori-cenedlaethol

**Adran 17 Darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

5.11 Mae adran 17 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[21] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau y darperir gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â gofal a chymorth, yn ogystal â chymorth i ofalwyr. Mae dyletswyddau Deddf Gofal Plant 2006 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn adlewyrchu bwriad statudol a rennir i hybu llesiant drwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bawb yn gynnar, ac i gefnogi unigolion a theuluoedd i nodi datrysiadau yn gynnar.

5.12 Mae Rhan 2 o'r Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)[22] a ddyroddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn atgyfnerthu'r dull atal a galluogi hwn. Mae'n pennu disgwyliadau clir y dylai gwybodaeth, cyngor a chymorth fod yn hygyrch, yn gymesur a chanolbwyntio ar ganlyniadau llesiant personol. Yn y cyd-destun hwn, gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd chwarae rhan allweddol fel gwasanaeth drws ffrynt, gan helpu i gyflawni'r dyletswyddau hyn mewn ffordd gydlynol a chyson.

**Cynnwys gwybodaeth**

5.13 Mae Rheoliadau 2008 yn darparu disgrifiad o'r wybodaeth ofynnol y dylai awdurdodau lleol ei darparu. Y tri chategori o wybodaeth yw:

- gofal plant;
- gwybodaeth am wasanaethau, cyfleusterau neu gyhoeddiadau lleol;
- gwybodaeth genedlaethol gyffredinol am wasanaethau, cyfleusterau neu gyhoeddiadau.

5.14 Dylai awdurdodau lleol o leiaf barhau i gyrraedd Safonau Ansawdd Gofynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Cymru (Atodlen 7) a sicrhau bod rhieni'n cael eu harwain yn effeithiol at ffynonellau cymorth lleol a chenedlaethol priodol ac at gyfeiriaduron gwasanaethau lleol.

**Gofal plant**

5.15 Mae Rhan 2 o Reoliadau 2008 yn nodi'r categorïau o wybodaeth y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei darparu ar gyfer pob darparwr gofal plant y rhoddir ei fanylion i ddefnyddwyr. Dylai gwasanaethau gwybodaeth hefyd roi arweiniad i rieni ar ddewis gofal plant[23] a gwneud trefniadau gyda darparwyr.

5.16 Dylai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr am y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal (gan gynnwys argaeledd addysg feithrin a ariennir a darpariaeth gofal plant a ariennir, darpariaeth gofal plant cyfrwng

[21] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[22] Rhan 2 Cod ymarfer ar swyddogaethau gofal cymdeithasol cyffredinol awdurdodau lleol: fersiwn 2024
[23] Dewis Gofal Plant - Choosing Childcare

Cymraeg a dwyieithog a gwasanaethau a chyfleusterau mewn lleoliadau gofal plant sy'n addas i blant anabl a phlant a chanddynt anghenion ychwanegol).

5.17 Ystyrir bod iaith darpariaeth yn ffactor pwysig i'w bennu, yn enwedig o ran darparu gwybodaeth gywir i rieni i'w helpu i ddewis.

5.18 Mae Pennod 2 o'r Canllawiau Statudol ar Ofal Plant (2026) yn darparu rhagor o fanylion am y modd y mae rhaid i awdurdodau lleol fesur natur a graddau'r angen am ofal plant, a'r gofal plant a gyflenwir, yn eu hardal, sy'n cynnwys ystyried y ddarpariaeth gofal plant lle defnyddir y Gymraeg. Dylai awdurdodau lleol ystyried y data a gesglir drwy broses yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant i wella'r wybodaeth a ddarperir i rieni.

5.19 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth ar gael am bob gwasanaeth gofal plant sydd wedi ei gofrestru ag AGC ac sy'n cael ei arolygu ganddi. Bydd hyn yn cynnwys lleoliadau sy'n darparu addysg feithrin a ariennir sydd hefyd wedi eu cofrestru ag AGC ac sy'n cael eu harolygu gan AGC neu Estyn.

5.20 Ni ddylai awdurdodau lleol ddarparu manylion cyswllt gwarchodwyr plant nad ydynt wedi rhoi caniatâd i'w manylion gael eu datgelu. Dylai gwasanaethau gwybodaeth gysylltu â phob gwarchodwr plant sydd newydd gofrestru a chytuno ar ddulliau cysylltu, er enghraifft, a yw'n fodlon i'w gyfeiriad a/neu rif ffôn gael eu rhannu â rhieni.

5.21 Gall darpariaeth anghofrestredig ("wedi ei heithrio") chwarae rhan bwysig yn y cyflenwad darpariaeth gofal plant mewn sawl awdurdod lleol, yn enwedig wrth gefnogi rhieni i ymgymryd â gwaith a hyfforddiant, ee clybiau cyn ac ar ôl ysgol yn ogystal â chlybiau gwyliau. Bydd disgwyl i awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth am ddarpariaeth anghofrestredig ("wedi ei heithrio") a'i darparu i rieni. Dylid hefyd ystyried darpariaeth gofal plant sydd wedi ei heithrio rhag cofrestru mandadol ond sy'n rhan o gynlluniau cymeradwyo gwirfoddol.

5.22 Dylai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd gefnogi rhieni i wneud dewisiadau cytbwys drwy eu cyfeirio at adroddiadau arolygu AGC ac Estyn, gan gydnabod mai dim ond un elfen o ddarlun ehangach o ansawdd yw canlyniadau arolygiadau. Dylid rhoi gwybod i rieni a yw lleoliadau wedi eu cofrestru, wedi eu heithrio neu'n rhan o gynlluniau cymeradwyo gwirfoddol, gan gynnwys pa ofynion a safonau y mae rhaid iddynt eu bodloni a'u cyrraedd.

5.23 Dylai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd roi gwybodaeth i rieni am yr amrywiaeth lawn o ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yn eu hardal a, lle y bo'n briodol, am y cymorth sydd ar gael i dalu costau gofal plant. Dylai gwasanaethau gwybodaeth hefyd allu esbonio manteision ehangach gofal plant, chwarae a dysgu cynnar o ran cefnogi llesiant, datblygiad a dysgu plant, ochr yn ochr â chefnogi gallu rhieni i weithio, hyfforddi neu astudio.

5.24 Er y gall gwasanaethau gwybodaeth ddarparu gwybodaeth am y ddarpariaeth gofal plant, dylent fod yn ddiduedd ac ni ddylent arwain rhieni at

un math penodol o ddarpariaeth. Y rhiant ddylai wneud y penderfyniad terfynol am y gofal mwyaf priodol i'w blentyn.

5.25 Bydd AGC yn parhau i drefnu i wybodaeth am bob darparwr cofrestredig gael ei darparu i awdurdodau lleol, yn unol â'r Protocol Rhannu Gwybodaeth cyfredol rhwng awdurdodau lleol ac AGC.

Gofal plant a ddarperir yng nghartref y plentyn ei hun

5.26 Dylai awdurdodau lleol sicrhau, wrth ddarparu gwybodaeth i rieni am ofal plant a ddarperir yng nghartref y plentyn ei hun, bod eu gwasanaethau gwybodaeth yn eu cyfeirio at gynllun cymeradwyo gwirfoddol ar gyfer gofal plant o'r fath a'r corff cymeradwyo perthnasol.

Trefniadau Trawsffiniol

5.27 I lawer o rieni, efallai mai gofal plant a leolir mewn ardaloedd cyfagos fydd y dewis mwyaf priodol i'w plant a'r hawsaf iddynt ei gyrraedd. Dylai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a gwasanaethau gofal plant allweddol eraill gysylltu â'i gilydd i sicrhau bod rhieni yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt am y ddarpariaeth mewn ardaloedd eraill.

Cost Gofal Plant

5.28 Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth i rieni am gostau’r ddarpariaeth gofal plant y maent yn ei hystyried (os yw ar gael), gan gynnwys cyngor ar gymorth i dalu cost gofal plant, ee gofal plant a ariennir, gofal plant di-dreth. Dylai gwasanaethau gwybodaeth gyfeirio rhieni at yr wybodaeth briodol i'w helpu i wneud dewisiadau cytbwys a helpu rhieni i gael gafael ar yr wybodaeth honno.

**Diogelu Plant**

5.29 Mae gan Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod gan rieni yr wybodaeth briodol i'w helpu i wneud penderfyniadau am addasrwydd darpariaeth gofal plant, gan gynnwys deall trefniadau diogelu a'r gwiriadau sydd wedi eu cynnal ar ddarparwyr cofrestredig a/neu gymeradwy.

5.30 Rhaid i Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd hysbysu rhieni am statws cofrestru darparwyr neu gyfeirio rhieni at y corff cymeradwyo perthnasol yn achos gofal plant cymeradwy yng nghartref y plentyn ei hun. Dylent gynghori rhieni, os ydynt yn ystyried defnyddio darpariaeth gofal plant sydd wedi ei heithrio, y dylent wirio geirdaon a gofyn i'r darparwr pa fath o wiriadau y mae'n eu cynnal ar weithwyr. Er enghraifft, dylai rhieni wirio a yw'r darparwr yn cael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i'w helpu i benderfynu a oes gwybodaeth a fyddai'n golygu bod yr ymgeisydd yn anaddas i weithio gyda phlant. Bydd y gwiriad manylach yn cynnwys manylion ynghylch a yw wedi ei gynnwys ar y rhestr waharddedig o unigolion sy'n anaddas i weithio gyda phlant. Mae hi yn erbyn y gyfraith i

gyflogwyr gyflogi rhywun neu ganiatáu i rywun wirfoddoli ar gyfer gweithgarwch rheoleiddiedig gyda phlant os yw'n gwybod ei fod wedi ei gynnwys ar y rhestr waharddedig.

5.31 Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.[24]

5.32 Dylai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd fod yn ymwybodol o'r fframwaith ar gyfer diogelu plant a'r polisïau a'r gweithdrefnau lleol penodol a luniwyd gan eu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, a'u deall. Dylai gwasanaethau gwybodaeth allu cyfeirio rhieni ac aelodau eraill o'r cyhoedd at wasanaethau gofal cymdeithasol plant yn yr awdurdod lleol os bydd ganddynt bryderon am lesiant neu ddiogelwch plentyn yng nghyd-destun gwasanaethau gofal plant, neu'n fwy cyffredinol. Os bydd angen, dylai'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd eu hunain gyfeirio pryderon am blentyn at wasanaethau cymdeithasol plant neu'r heddlu yn unol â'r polisi diogelu plant (sef y polisi amddiffyn plant gynt a amlinellir yn y Safonau Ansawdd Gofynnol ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Cymru - Atodlen 7).

Gwybodaeth am Wasanaethau Ychwanegol a Gynigir gan Ddarparwyr Gofal Plant

5.33 Rhaid i awdurdodau lleol gael manylion ychwanegol am y gwasanaethau a gynigir gan ddarparwyr gofal plant a sicrhau bod y manylion hyn ar gael i rieni yn unol ag adran 27(2)(a) o Ddeddf Gofal Plant 2006. Er enghraifft, byddant yn gallu darparu manylion ynghylch a yw'r darparwr wedi ei gofrestru â'r awdurdod lleol i ddarparu addysg feithrin a ariennir neu leoedd gofal plant a ariennir.

5.34 Mae dyletswydd gyfreithiol ar wasanaethau cyhoeddus i roi gwybod i'r awdurdod lleol a/neu i'r heddlu am bryderon yn ymwneud â cham-drin ac esgeuluso plant. Ar gyfer pob gwasanaeth arall, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi disgwyliadau clir o ran cyfrifoldebau diogelu yn y ddogfen Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu[25].

5.35 Mae enghreifftiau eraill o wybodaeth ychwanegol yn cynnwys a ellir darparu gofal dros nos, cymwysterau staff, argaeledd trefniadau deietegol arbennig a'r amgylchedd, gan gynnwys lle a chyfarpar chwarae awyr agored. Gallai gwybodaeth am ddarparwyr gofal plant gynnwys a ellir gollwng neu gasglu plant o'r ysgol (ac os felly pa ysgolion) a manylion anifeiliaid anwes ar y safle. Nid yw'r rhestr yn y paragraff hwn yn hollgynhwysfawr ac efallai y bydd awdurdodau lleol am gynnwys gwybodaeth arall i ddiwallu anghenion lleol a chyfeirio at ganllawiau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru fel sy'n briodol.

5.36 Os na all rhieni ddod o hyd i ofal plant addas, dylent allu rhannu adborth am eu hanawsterau â'r rhai sy'n gyfrifol am asesu digonolrwydd y

[24] Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – GOV.UK
[25] https://www.llyw.cymru/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu

ddarpariaeth gofal plant o dan adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (gweler Pennod 3 o'r canllawiau hyn).

**Cynaliadwyedd**

5.37 Mewn rhai achosion, bydd yn ddefnyddiol i Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ddweud wrth rieni a yw'r ddarpariaeth yn cael unrhyw grantiau uniongyrchol neu'n darparu gofal plant a ariennir gan y llywodraeth. Byddai hefyd yn ddefnyddiol iddynt roi gwybod i rieni ers faint o amser y mae'r ddarpariaeth wedi bod yn weithredol. Os yw'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus, dylid ei darparu. Fodd bynnag, dylid ei gwneud yn glir i rieni nad yw'r rhain o reidrwydd yn ddangosyddion dibynadwy o ran cynaliadwyedd ac ansawdd. Dylid cynnal diweddariadau rheolaidd rhwng y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r rhai sy'n gyfrifol am raglenni gofal plant a ariennir ac Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant.

**Gwybodaeth am wasanaethau, cyfleusterau a chyhoeddiadau lleol eraill**

5.38 Mae'r rhan hon o'r canllawiau yn disgrifio'r gwasanaethau, y cyfleusterau neu'r cyhoeddiadau y cyfeirir atynt yn adran 27(2)(b) ac (c) o Ddeddf Gofal Plant 2006, y gellir rhoi gwybodaeth i rieni a darpar rieni amdanynt.

5.39 Mae Rhan 2 o Reoliadau 2008 yn nodi penawdau pwnc cyffredinol y gall awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth amdanynt. Mae'r penawdau hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth o wasanaethau a chymorth a all gyfrannu at lesiant cyffredinol babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

5.40 Pan na fo’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cadw neu'n darparu gwybodaeth fanwl am bwnc penodol, dylai nodi'n glir ble y gellir cael gafael ar yr wybodaeth honno, gan gynnwys drwy wasanaethau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol priodol. Darperir enghreifftiau o'r math o wybodaeth y gellir ei darparu. Anogir awdurdodau lleol i nodi mathau a ffynonellau eraill o wybodaeth leol (gweler y rhestrau isod sy'n rhoi enghreifftiau ond nad ydynt yn hollgynhwysfawr) sy'n diwallu anghenion babanod, plant a phobl ifanc, rhieni a theuluoedd yn eu hardal.

1. **Gwasanaethau Addysg a Dysgu fel Teulu**

i. Cyfeiriadur ysgolion lleol
ii. Polisi derbyn i ysgolion
iii. Adroddiadau AGC / Estyn
iv. Darpariaeth a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol
v. Cymorth ADY

2. **Gwasanaethau Iechyd a Llesiant**

i. Cymorth i deuluoedd
ii. Iechyd meddwl a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

iii. Gwybodaeth am wasanaethau cymorth i blant a phobl ifanc anabl neu a chanddynt anghenion ychwanegol a'u teuluoedd.

**3. Chwarae, chwaraeon a chyfleusterau hamdden eraill**

i. Darpariaeth chwarae
ii. Gweithgareddau i blant a phobl ifanc
iii. Gweithgareddau hamdden

**4. Gwasanaethau Gofal cymdeithasol a Chymorth i Deuluoedd**

i. Ymyrraeth gynnar a chymorth atal
ii. Gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion

**5. Gwasanaethau ieuenctid**

i. Gwybodaeth am gyfleoedd / clybiau ieuenctid
ii. Ysgolion/hyfforddiant/gyrfaoedd – argaeledd cyngor ar yrfaoedd
iii. Gwybodaeth am wasanaethau cymorth i bobl ifanc

**6. Gwasanaethau Ariannol a Chyfreithiol**

i. Gwybodaeth am gymorth ariannol sydd ar gael
ii. Gwybodaeth am wasanaethau cyfreithiol lle y bo'n berthnasol

**7. Datblygiad plant**

i. Gwybodaeth iechyd i rieni a rhieni beichiog
ii. Gwybodaeth am wasanaethau cymorth yn ymwneud â magu plant a datblygiad plant

**8. Cadw'n ddiogel**

i. Gwybodaeth am ddiogelwch cymunedol / diogelwch yn y cartref a diogelwch ar-lein
ii. Cyfeirio at bolisïau a chanllawiau'r llywodraeth

**9. Gwasanaethau Lleol a Chenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc Anabl**

i. Gwybodaeth am wasanaethau cymorth i blant a phobl ifanc anabl neu a chanddynt anghenion ychwanegol a'u teuluoedd.

**10. Gwasanaethau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg**

i. Gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog
ii. Gwybodaeth am sut i gael gafael ar adnoddau a gweithgareddau Cymraeg

**Gwybodaeth Leol Arall**

5.41 Dylai awdurdodau lleol allu nodi a chyfeirio at ffynonellau ehangach o wybodaeth gyffredinol a chenedlaethol sydd o fudd i ddarpar rieni, rhieni, neiniau a theidiau, gwarcheidwaid, gofalwyr a phlant a phobl ifanc, hy sefydliadau cenedlaethol, grwpiau cymorth, llinellau cymorth dros y ffôn, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol. Wrth gynllunio a chreu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, dylai awdurdodau lleol gysylltu â gwasanaethau eraill ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

**Gwybodaeth Genedlaethol Gyffredinol**

5.42 Gallai ffynonellau gwybodaeth posibl gynnwys gwefannau (fel Llywodraeth Cymru, AGC, Estyn, y GIG, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Dewis, HWB), llinellau cymorth dros y ffôn (fel Childline, MEIC Cymru ac NSPCC), a chanolfannau cyngor arbenigol. Mae'r platfformau hyn fel arfer yn cynnig canllawiau ar ddeddfwriaeth, arferion da a chymorth ymarferol sydd wedi ei deilwra i sefyllfa rhieni. Dylai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd awdurdodau lleol fod yn gyfarwydd â'r gwasanaethau hyn er mwyn helpu rhieni i ddewis y fformat mwyaf addas ar gyfer cael gafael ar wybodaeth.

5.43 Os na fydd gan yr ymholwr fynediad i'r rhyngrwyd, dylai'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd geisio ei helpu i gael gafael ar wasanaethau ar y we. Mae mynediad am ddim i'r rhyngrwyd ar gael ym mhob llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd gynnig adnoddau copi caled pan fo’r rheini ar gael os na all yr ymholwr gael mynediad i'r rhyngrwyd.

5.44 Yn ogystal â rhoi gwybod yn uniongyrchol i rieni, anogir awdurdodau lleol i roi gwybod i'r rhai sy'n gweithio gyda rhieni, fel lleoliadau gofal plant ac athrawon, am wasanaethau gwybodaeth a chyngor eraill.

5.45 Dylai awdurdodau lleol ystyried sut y gall darpariaeth leol eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd chwarae rhan wrth ddarparu gwybodaeth ar lefel genedlaethol, boed hynny drwy un pwynt mynediad ar-lein neu drwy ddulliau eraill. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol yn hwyluso atgyfeiriadau rhwng sefydliadau eraill ledled y DU a sefydliadau eraill cenedlaethol fel gwefannau a llinellau cymorth dros y ffôn.

**Gwybodaeth am wasanaethau i blant anabl a phlant ag ADY**[26]

5.46 Fel y nodir **o dan adran 69 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**[27]**:**

(1) Rhaid i awdurdod lleol—

[26] Anghenion dysgu ychwanegol: pecyn cymorth rhieni a gofalwyr | LLYW.CYMRU
[27] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

(a) gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt;
(b) atgyfeirio unrhyw blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol i ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol;
(c) atgyfeirio unrhyw berson sy'n gyfaill achos i blentyn y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol i ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol.

(2) Yn yr adran hon ystyr "gwasanaethau eirioli annibynnol" yw cyngor a chymorth (drwy gynrychiolaeth neu fel arall) i blentyn, person ifanc neu gyfaill achos—

(a) sy'n gwneud, neu sy'n bwriadu gwneud, apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru o dan y Rhan hon,
(b) sy'n ystyried pa un ai i apelio i'r Tribiwnlys ai peidio, neu
(c) sy'n cymryd rhan, neu sy'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau a wneir o dan adran 68.

(3) Wrth wneud trefniadau o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i'r egwyddor bod rhaid i unrhyw wasanaethau a ddarperir o dan y trefniadau fod yn annibynnol ar unrhyw berson sydd—

(a) yn destun apêl i'r Tribiwnlys, neu
(b) yn ymwneud ag ymchwilio i apêl o'r fath neu ddyfarnu arni.

(4) Caiff y trefniadau gynnwys darpariaeth i'r awdurdod lleol wneud taliadau i unrhyw berson, neu mewn perthynas ag unrhyw berson, sy'n cyflawni swyddogaethau yn unol â'r trefniadau a wneir o dan yr adran hon.

5.47 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau arbenigol sydd ar gael mewn lleoliadau gofal plant, a darparu gwybodaeth am:

- argaeledd gwasanaethau meddygol arbenigol, gwasanaethau therapi, gwasanaethau cymorth
- grwpiau cymorth arbenigol, budd-daliadau treth, cyngor ariannol, sefydliadau gwirfoddol perthnasol, a manylion am seibiannau tymor byr sydd ar gael.

5.48 Dylid teilwra'r wybodaeth a ddarperir at anghenion unigol rhieni, babanod, plant a phobl ifanc.

5.49 Dylai gwasanaethau gwybodaeth gydweithio'n agos â changhennau lleol sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r cysylltiadau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys elusennau cenedlaethol a chanddynt grwpiau lleol hefyd. Dylai gwasanaethau gwybodaeth gymryd camau rhagweithiol i gael manylion am gyfleusterau o'r fath a gynigir yn lleol ac yn genedlaethol, a chynnal cysylltiadau effeithiol i'w gwneud yn hawdd i rieni gael cymorth priodol pan fydd ei angen arnynt.

### Darparu gwybodaeth i rieni anabl

5.50 Dylai gwasanaethau gwybodaeth ystyried asesu anghenion rhieni anabl yn eu hardal er mwyn sicrhau bod safleoedd a gwasanaethau yn hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010[28], er enghraifft bod rampiau i gadeiriau olwyn ar gael ar safleoedd, bod gwasanaethau'n darparu dolenni clywed a staff sy'n gallu arwyddo neu gyfieithu, a bod modd darparu gwybodaeth drwy gyfryngau priodol. Gallai'r rhain gynnwys:

- Fersiwn print bras/tâp o ddeunyddiau
- Braille
- Fformatau sain
- Llinellau iaith
- Ffonau testun ar gyfer ymholwyr ag amhariad ar eu clyw

Nid yw’r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

### Gwasanaethau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

5.51 Dylai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd roi gwybodaeth i rieni a darpar rieni am fanteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio’r Gymraeg yng nghartref y teulu, gan gynnwys mynediad at adnoddau, darpariaeth gofal plant a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg i gefnogi datblygiad iaith cynnar plant.

5.52 Dylid rhoi gwybod i rieni a darpar rieni am fentrau perthnasol sydd â'r nod o annog rhieni newydd i siarad Cymraeg gyda'u plant neu gynnig cyfle i rieni fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu mewn awyrgylch Cymraeg anffurfiol.

## Rheoli a Threfnu'r Gwasanaeth Gwybodaeth

### Mynediad at y Gwasanaeth Gwybodaeth

5.53 Yn unol ag adran 27(6) o Ddeddf Gofal Plant 2006, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau gwybodaeth yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn ymatebol i anghenion rhieni, gan gydnabod cefndiroedd ac amgylchiadau teuluol amrywiol a chefnogi mynediad teg at wybodaeth, cyngor a chymorth.

5.54 Dylid sicrhau bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ar gael drwy sianeli amrywiol, bod cyfeiriadau clir atynt, eu bod wedi eu hintegreiddio â mentrau eraill, a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Dylai'r gwasanaeth fod ar gael 24 awr y dydd. Gallai hyn fod drwy wasanaeth peiriant ateb, e-bost, ffurflen ar-lein, neu'r cyfryngau cymdeithasol.

5.55 Dylai gwasanaethau gwybodaeth hefyd sicrhau bod yr un wybodaeth ar gael i bobl ac asiantaethau allweddol sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal â'r hyn sydd ar gael i rieni. Dylid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i

[28] Deddf Cydraddoldeb 2010

ofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal preswyl, gwasanaethau maethu annibynnol, rhieni mabwysiadol a darpar rieni mabwysiadol, ymhlith eraill.

5.56 Mae Deddf Gofal Plant 2006 hefyd yn ei gwneud yn glir bod rhaid i'r gwasanaeth gael ei ddarparu mewn ffyrdd a fydd yn adnabod teuluoedd a allai fel arall ei chael hi'n anodd cael gafael ar wybodaeth, ac yn estyn allan atynt.

5.57 Dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion rhieni yn eu hardal a rhoi sylw penodol i ddiwallu anghenion cymunedau a allai fel arall ei chael hi'n anodd defnyddio'r gwasanaeth gwybodaeth, er enghraifft cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Anogir awdurdodau lleol i ymgysylltu â chymunedau o'r fath er mwyn deall y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwybodaeth. Efallai y byddant am ystyried cynnal asesiad blynyddol i alluogi'r awdurdod i fonitro ac adolygu i ba raddau y mae'r cymunedau hyn yn defnyddio gwasanaethau gwybodaeth.

5.58 Pan fo hynny'n bosibl, dylai gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ledled Cymru ystyried datblygu adnoddau ar y cyd a'u rhannu os ystyrir bod hyn yn fuddiol wrth ddiwallu anghenion babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

5.59 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth ar gael drwy amrywiaeth eang o allfeydd, yn enwedig mewn mannau y mae rhieni'n ymweld â hwy fel canolfannau plant integredig, canolfannau teuluoedd, ysgolion, practisau meddygon teulu, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden, mannau chwarae, siopau ac ati.

**Diogelu Data**

5.60 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018[29] a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)[30] wrth ddarparu neu rannu gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys ystyried y sail gyfreithlon dros brosesu, lleihau data a thrin data personol yn briodol, er enghraifft wrth rannu gwybodaeth yn ymwneud â darparwyr gofal plant. Pan fo angen cyngor, dylai gwasanaethau gwybodaeth ymgynghori â Swyddog Diogelu Data a gwasanaethau cyfreithiol eu hawdurdod lleol.

5.61 Anogir awdurdodau lleol i hyrwyddo eu Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i bob rhiant a defnyddiwr gwasanaeth, yn enwedig y rhai a allai ei chael hi'n anodd cael gafael ar wybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gwasanaethau gwybodaeth drwy rannu arferion da o bryd i'w gilydd ar y cyd â gwasanaethau gwybodaeth ledled Cymru.

[29] Deddf Diogelu Data 2018
[30] https://www.legislation.gov.uk/cy/eur/2016/679/contents

**Defnyddwyr Gwasanaethau**

5.62 Mae adrannau 27(2) a 27(5) o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau gael eu darparu i rieni neu ddarpar rieni. Mae adran 27(9) yn diffinio'r termau hyn. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bob darpar riant a phob rhiant yn eu hardal hyd at ben-blwydd eu plentyn yn 20 oed, i'w cefnogi yn eu rôl fel rhieni.

5.63 Gellir cynnig y gwasanaeth i bob rhiant fel y'i diffinnir, oni bai bod gorchymyn llys yn cyfyngu ar allu unigolyn i arfer cyfrifoldeb rhiant. Dylai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd osgoi ymwneud ag unrhyw wrthdaro rhwng rhieni. Mewn achosion lle na all rhieni ddatrys problemau rhyngddynt, efallai yr hoffai'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd awgrymu y dylai'r rhiant geisio cyngor cyfreithiol annibynnol ar gael gorchymyn llys sy'n nodi'n union pa benderfyniadau y gall pob rhiant eu gwneud mewn perthynas â'r plentyn.

5.64 Mae pob cyfeiriad at rieni yn cynnwys tadau a mamau. Mae diddordeb gweithredol y ddau riant/partner ym mhob agwedd ar fywyd a datblygiad eu plant yn bwysig.

5.65 Disgwylir mai rhieni a darpar rieni fydd yn manteisio ar yr wybodaeth yn bennaf. Fodd bynnag, dylai'r awdurdod lleol hefyd ddarparu gwybodaeth i bobl sy'n gweithredu ar ran y rhiant, gan gynnwys neiniau a theidiau a pherthnasau eraill, ffrindiau a chyfryngwyr eraill. Mae is-adran 27(4) o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn rhoi pŵer yn ôl disgresiwn i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth i bersonau o'r fath fel sy'n briodol yn eu barn hwy. Dim ond gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus y dylai awdurdodau lleol ei rhoi i gyfryngwyr, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau a allai helpu'r rhiant. Ni ddylai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd drafod gwybodaeth am blant unigol ag unrhyw un heblaw eu rhieni, fel y'u diffinnir uchod, neu â phobl ifanc neu blant unigol os ystyrir eu bod yn ddigon aeddfed. Rhaid sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR a deddfwriaeth ar ddiogelu. Ni ddylai awdurdodau lleol a gwasanaethau gwybodaeth drafod manylion rhieni, plant a phobl ifanc penodol â'r rhai sy'n ymholi ar ran rhieni, a dylent hefyd sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 2018.

5.66 Mae'n bwysig bod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn dilyn y protocol gydag AGC a'i fod yn cadw mewn cysylltiad agos â darparwyr gofal plant lleol er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am bob darparwr cofrestredig.

5.67 Dylai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd gynnig cymorth i unigolion sydd â diddordeb mewn darparu gofal dydd neu ddod yn warchodwyr plant cofrestredig. Dylent ddarparu canllawiau clir ar y camau sy'n ofynnol i gofrestru. Dylai gwasanaethau gwybodaeth hefyd ddarparu manylion perthnasol i'r rhai sy'n chwilio am gyfleoedd hyfforddi ym maes addysg gynnar, gofal plant, neu waith chwarae.

**Cynllunio, Dylunio a Darparu Gwasanaethau Gwybodaeth**

5.68 Mae adran 27(1) o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu a chynnal gwasanaeth sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

5.69 Mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu ar y model mwyaf priodol ar gyfer eu hardal, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chynnig mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynol ar draws yr amrywiaeth lawn o wasanaethau cymorth i rieni. Bydd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd effeithiol a chanddo adnoddau da yn helpu ei awdurdod lleol i fodloni gofynion adrannau 22 a 26 o ddyletswydd Deddf Gofal Plant 2006 i sicrhau gofal plant digonol i rieni sy'n gweithio neu eu galluogi i ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant y gellid disgwyl yn rhesymol y byddai'n eu helpu i gael gwaith. Bydd awdurdodau lleol yn sicrhau bod y gwasanaeth gwybodaeth yn hygyrch ac yn diwallu anghenion rhieni. Dylai fod o ansawdd uchel. Bydd llawer o awdurdodau lleol am adeiladu ar yr arbenigedd sydd eisoes i'w weld yn eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

5.70 Rhaid i awdurdodau lleol ystyried pa wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth eraill sydd ar gael wrth ddylunio a datblygu gwasanaethau. Ni ddylid dyblygu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth eraill a dylent naill ai fod wedi eu hintegreiddio â'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth neu fod ar gael yn hawdd drwy'r gwasanaeth. Rhaid i awdurdodau lleol, gan weithio gyda'u partneriaid rhanbarthol, sicrhau bod cyfeiriaduron gwasanaethau, gwasanaethau cynghori a llinellau cymorth presennol yn cyd-fynd â'i gilydd yn effeithiol er mwyn datblygu darpariaeth ddibynadwy i bob defnyddiwr.

5.71 Bydd rhai agweddau ar wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth y gallai fod yn fwy priodol eu dylunio a'u darparu ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. Er enghraifft, byddai un pwynt mynediad ar-lein yn sicrhau mynediad cyson i'r cyhoedd ac yn osgoi dyblygu gwybodaeth genedlaethol. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws cael gafael ar wybodaeth ac yn sicrhau dull mwy economaidd ac effeithlon o ddarparu'r wybodaeth honno.

5.72 Caiff trefniadau lleol ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth eu pennu'n lleol neu'n rhanbarthol ac mae gan bob awdurdod lleol fodel/strwythur gwahanol ar gyfer y gwasanaethau hyn.

5.73 Dylid sicrhau bod trefniadau darparu’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn hyblyg fel bod modd profi dulliau darparu gwahanol, yn enwedig wrth i dechnoleg newid, er mwyn ystyried pa rai sydd fwyaf effeithiol o ran diwallu anghenion defnyddwyr. Er mwyn sicrhau bod darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt, bydd rhaid i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ddatblygu a mireinio ei ddulliau darparu yn barhaus. Er bod technoleg yn cynnig cyfleoedd newydd, bydd angen i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd ystyried sut i gyrraedd y rhai nad ydynt yn ymgysylltu a'r rhai

sy'n anos eu cyrraedd ac y gallai fod angen gwasanaethau wyneb yn wyneb a/neu allgymorth arnynt.

5.74 Dylai fod gan bob Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd strategaeth wybodaeth sy'n dangos sut y caiff ei wasanaeth ei ddarparu i ddiwallu anghenion defnyddwyr yn yr ardal. Dylai'r strategaeth nodi:

- Sut y gellir cael gafael ar yr wybodaeth; a
- Sut mae defnyddwyr y gwasanaeth yn defnyddio'r wybodaeth.

5.75 Mae'n annhebygol y bydd un model darparu ar ei ben ei hun yn diwallu anghenion llawn defnyddwyr mewn ardal.

**Ansawdd**

5.76 Bydd angen i'r rhai sy'n gyfrifol am reoli gwybodaeth sicrhau bod niferoedd digonol o staff cymwys ar gael i gyrraedd targedau a darparu gwasanaeth o ansawdd da. Mae'n debygol y bydd angen cymysgedd o gymwysterau, profiad, ieithoedd a sgiliau ar staff, a dylai fod gan bob Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd system arfarnu staff lle y caiff anghenion hyfforddi a datblygu eu hasesu'n rheolaidd.

5.77 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod yr wybodaeth sydd ar gael yn gyflawn ac yn berthnasol i anghenion lleol/anghenion ymholwyr. Dylid diweddaru gwybodaeth a gesglir yn lleol o leiaf unwaith y flwyddyn yn unol â strategaeth wybodaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fel y'i hamlinellir yn Safonau Ansawdd Gofynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Cymru (Atodlen 7).

**Ymgynghori â rhieni, adolygu a gwerthuso**

5.78 Dylid ymgynghori â rhieni ynghylch yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt a sut mae'n well ganddynt ei chael. Dylid adolygu gweithrediad y gwasanaeth gwybodaeth a chynnwys yr wybodaeth y gall ei darparu er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn effeithiol. Y ffordd fwyaf effeithiol o ymgynghori ac adolygu yw gwneud hynny fel rhan o ofynion eraill i awdurdodau lleol ymgynghori â rhieni; er enghraifft, fel rhan o'r ddyletswydd i asesu digonolrwydd darpariaeth gofal plant; ac asesiadau poblogaeth o'r angen am ofal a chymorth a gaiff eu hystyried fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae asesiadau poblogaeth hefyd yn defnyddio'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddeall anghenion pobl yn eu hardal a pha wybodaeth, cyngor a chymorth y maent yn chwilio amdanynt.

5.79 Dylai awdurdodau lleol sicrhau y caiff Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd eu gwerthuso fel rhan o'u systemau sicrhau ansawdd mewnol.

# Atodlen 1

## Diffiniad o'r Categorïau Iaith

| |
|---|
| Lleoliad Cyfrwng Cymraeg<br><br>Cymraeg yw prif iaith y lleoliad o ddydd i ddydd. Cymraeg yw iaith yr holl weithgareddau, a'r iaith ar gyfer cyfathrebu â phob plentyn a pherson ifanc. Dyma hefyd iaith weinyddu'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn Gymraeg neu yn Gymraeg a Saesneg yn ôl dewis y rhieni. Mae croeso i blant o bob cefndir iaith yn y ddarpariaeth. |
| Lleoliad Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg<br><br>Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd yn y lleoliad ac mae'n cynnwys elfennau dwyieithog llawn. Defnyddir y Gymraeg a’r Saesneg fel ieithoedd ar gyfer cyfathrebu â’r plant a’r bobl ifanc a defnyddir y ddwy iaith yn ystod gweithgareddau. Defnyddir y ddwy iaith i weinyddu'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn Gymraeg neu yn Gymraeg a Saesneg yn ôl dewis y rhieni. |
| Lleoliad Cyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog<br><br>Saesneg yw prif iaith y lleoliad o ddydd i ddydd, gyda rhai elfennau dwyieithog. Saesneg yw iaith y mwyafrif o'r gweithgareddau, a'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu â'r holl blant a phobl ifanc. Darperir yr elfen Gymraeg drwy gyflwyno rhywfaint o Gymraeg i bob plentyn a pherson ifanc drwy ddefnyddio cyfarchion, caneuon, straeon a gemau. Mae cyfran y Gymraeg yn amrywio yn dibynnu ar allu ieithyddol y staff. Saesneg yw iaith weinyddu'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu â'r rhieni yn Saesneg. |
| Addysg Cyfrwng Saesneg<br><br>Saesneg yw iaith y lleoliad o ddydd i ddydd. Saesneg yw iaith yr holl weithgareddau, a'r iaith ar gyfer cyfathrebu â phob plentyn a pherson ifanc. Dyma hefyd iaith weinyddu'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu â'r rhieni yn Saesneg. |

# Atodlen 2

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Wrth gynnal eu Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â'r rhanddeiliaid canlynol yn eu hardal:

- plant;
- rhieni neu ofalwyr;
- darparwyr gofal plant.

Rhaid i awdurdodau lleol hefyd ymgynghori â'r partneriaethau a'r sefydliadau canlynol wrth gynnal eu Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant:

- eu Bwrdd Diogelu Plant cysylltiedig[31];
- y Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg (os oes un wedi ei sefydlu yn ardal yr awdurdod lleol);
- 'Swyddog Arweiniol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae' yr awdurdod lleol, sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;
- y corff sy'n gyfrifol am bennu Anghenion Dysgu Ychwanegol a pharatoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018[32], yn dibynnu a yw'r plentyn o oedran cyn-ysgol neu oedran ysgol.

Rhaid i awdurdodau lleol hefyd hysbysu swyddfeydd lleol y Ganolfan Byd Gwaith a gofyn eu barn am yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

Gall awdurdodau lleol hefyd ystyried ymgynghori â'r rhanddeiliaid canlynol yn eu hardal, fel y bo'n briodol, er mwyn cwblhau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant:

- unigolion sy'n cynrychioli plant, rhieni neu ofalwyr a darparwyr gofal plant, yn benodol Plant yng Nghymru;
- unigolion a chanddynt fuddiant mewn gofal plant;
- unigolion sy'n cynrychioli'r rheini a chanddynt fuddiant mewn gofal plant;
- unigolion sy'n cynrychioli cyflogwyr lleol a sefydliadau cyflogwyr;
- cyflogwyr lleol;
- awdurdodau lleol cyfagos;
- ysgolion;
- colegau addysg bellach;
- grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- sefydliadau yn y trydydd sector
- teuluoedd â phlant a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, neu anabledd;

[31] Adran 134(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[32] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

- Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar yr awdurdod lleol;
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol;
- adran tai yr awdurdod lleol;
- y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gwasanaethu ardal yr awdurdod lleol.

Os bydd awdurdodau lleol yn bwriadu ymgysylltu ag unrhyw sefydliadau/grwpiau a restrir uchod, neu'n ehangach, bydd angen iddynt fynd ati ar eu liwt eu hunain i wneud hyn, er enghraifft drwy ymgysylltu ag asiantaethau partner ac eiriolwyr cymunedol dibynadwy. Gallant weithio'n agos gyda sefydliadau a rhwydweithiau sefydledig i annog cyfranogiad ac ymgysylltiad, yn enwedig ymhlith grwpiau a chymunedau anodd eu cyrraedd.

Gall awdurdodau lleol hefyd ymgysylltu ag arweinwyr Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a rhanddeiliaid allweddol eraill fel bod yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a'r Cynllun Gweithredu yn cyd-fynd â chynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer twf a pharhad addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn eu cefnogi.

## Atodlen 3

## Mathau o Ofal Plant a Gwasanaethau

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r mathau o ofal plant, ee Gwarchodwr Plant; Gofal Dydd; Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored a'r mathau o wasanaethau y gellid eu darparu (yr amrywiaeth o wasanaethau y gellid eu darparu yn ôl y math o ofal plant).

Mae'r rhan fwyaf o'r mathau hyn o wasanaethau yn cyd-fynd â'r data a gesglir ar hyn o bryd gan Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth[33] AGC. Dylid nodi bod Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth AGC yn gofyn am ddarpariaeth yn ystod y tymor a'r gwyliau ar wahân.

Daw'r diffiniadau a'r enghreifftiau canlynol o fathau o ofal plant a gwasanaethau o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir 2026, ac mae'r diffiniad o Nani wedi ei ddarparu gan Arolygiaeth Gofal Cymru[34].

| MATH o Ofal Plant | Opsiynau o ran math o wasanaeth |
|---|---|
| ***Gwarchodwr Plant (Gofal plant yn y cartref)***<br><br>*Gofal plant a ddarperir gan un neu fwy o bobl i blant o'u geni hyd at 12 oed mewn mangre ddomestig nad yw'n gartref i'r plentyn ei hun am fwy na dwy awr y dydd am dâl.*<br><br>*Gall gwarchodwyr plant gynnig:*<br>*Gofal dydd llawn a gofal rhan-amser gan gynnwys darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol, gan gynnwys oriau annodweddiadol, ee darpariaeth gyda'r nos, ar benwythnosau a thros nos, gofal cofleidiol, darpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol, lleoedd addysg feithrin a ariennir, a lleoedd gofal plant a ariennir.* | Gofal Dydd Llawn |
| | Gofal hanner diwrnod (am) |
| | Gofal hanner diwrnod (pm) |
| | Cyn ysgol |
| | Ar ôl ysgol |
| | Gofal cofleidiol i ategu lleoliad addysg gynnar rhan-amser |
| | Ar benwythnosau a chyda'r nos (Ar ôl 6pm) |
| | Dros nos |

[33] Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth | Arolygiaeth Gofal Cymru
[34] Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 – Canllawiau Cymeradwyo (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru

<table>
<tr><th>Gofal Dydd</th><th>Opsiynau o ran math o wasanaeth</th></tr>
<tr><td rowspan="11">Gofal Dydd Llawn<br><br>Gofal dydd llawn i blant o'u geni hyd at 12 oed a ddarperir am gyfnod parhaus o bedair awr neu fwy mewn unrhyw ddiwrnod, mewn mangre annomestig.<br><br>Gall gynnwys meithrinfeydd dydd, canolfannau plant, a rhai canolfannau teuluoedd sy'n cynnig gofal llawn amser neu ran-amser, gan gynnwys darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol, darpariaeth gofal cofleidiol yn ystod gwyliau'r ysgol, lleoedd addysg feithrin a ariennir a lleoedd gofal plant a ariennir.<br><br>Gall hefyd gynnwys lleoliadau sy'n cynnig “Darpariaeth Gofal Sesiynol Gymysg Diwrnod Llawn” – amrywiaeth o wasanaethau gofal sesiynol drwy gydol y diwrnod hwnnw. Gall y rhain gynnwys cylchoedd chwarae, Cylchoedd Meithrin, gofal cofleidiol, lleoedd addysg feithrin a ariennir a lleoedd gofal plant a ariennir.<br><br>Enghreifftiau<br><br>Meithrinfa Ddydd<br>Darparwr gofal plant sy'n cynnig gofal drwy'r flwyddyn i blant rhwng 6 wythnos a 12 oed. Dim ond ar gyfer gofal plant y defnyddir y fangre ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 7:30am a 6pm. Darperir amrywiaeth o wasanaethau gofal gan gynnwys gofal dydd llawn i blant 0-3 oed, sesiynau cynnar yn y bore ac ar ôl ysgol, a gwasanaethau gollwng/casglu o'r ysgol. Mae gofal dydd llawn hefyd ar gael i blant oedran ysgol yn ystod gwyliau'r ysgol.<br><br>Darpariaeth gymysg ar yr un safle gan yr un darparwr<br>Darparwr gofal dydd sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau gofal plant rhan-amser i blant rhwng 2 a 5 oed. Mae'n cynnig sesiwn rhwng 9am a 11.30am, ynghyd ag opsiwn i aros am ginio tan 12.30pm. Yna, mae sesiwn arall ar gael rhwng 1pm a 4pm, gan gynnwys opsiwn i gasglu plant o'r ysgol leol am 12.30pm. Mae hefyd yn cynnig gwasanaethau gofal plant ac oriau a ariennir gan Dechrau'n Deg.</td><td>Meithrinfa – diwrnod llawn</td></tr>
<tr><td>Meithrinfa – hanner diwrnod (am)</td></tr>
<tr><td>Meithrinfa – hanner diwrnod (pm)</td></tr>
<tr><td>Cyn ysgol</td></tr>
<tr><td>Ar ôl ysgol</td></tr>
<tr><td>Cylch Chwarae / Cylch Meithrin (am)</td></tr>
<tr><td>Cylch Chwarae / Cylch Meithrin (pm)</td></tr>
<tr><td>Crèche</td></tr>
<tr><td>Gofal cofleidiol i ategu lleoliad addysg gynnar rhan-amser</td></tr>
<tr><td>Cinio</td></tr>
<tr><td>Ar benwythnosau a chyda'r nos (Ar ôl 6pm)</td></tr>
<tr><td></td><td>Dros nos</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Gofal Dydd Sesiynol<br><br>Gofal plant i blant rhwng 2 a 5 oed mewn mangre annomestig am gyfnod llai na chyfnod parhaus o bedair awr mewn unrhyw un diwrnod.<br>Lle y caiff dwy sesiwn eu cynnig mewn unrhyw un diwrnod, ni ddylai plant fynychu mwy na phum sesiwn yr wythnos. Rhaid bod cyfnod rhwng y sesiynau pan na fydd unrhyw blant ar y safle yn cael gofal gan y darparwr.</td><td>Bore</td></tr>
<tr><td>Prynhawn</td></tr>
<tr><td>Gofal cofleidiol i ategu lleoliad addysg gynnar rhan-amser, ee cylch chwarae, ysgol neu feithrinfa</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | |
| *Gall gynnwys cylchoedd chwarae, Cylchoedd Meithrin, lleoedd addysg feithrin a ariennir, a lleoedd gofal plant a ariennir. Gall gynnwys cylchoedd chwarae, Cylchoedd Meithrin, gofal cofleidiol, lleoedd addysg feithrin a ariennir, a lleoedd gofal plant am ddim.*<br><br>***Enghreifftiau***<br><br>***Cylch Meithrin neu Gylch Chwarae sy'n cynnig un sesiwn y dydd***<br><br>*Mae'r darparwr hwn yn cynnig sesiynau gofal plant rhwng 9am a 11.30am i blant rhwng 2 a 5 oed. Mae'n cynnig sesiynau o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn bennaf yn ystod y tymor.*<br><br>***Cylch Meithrin neu Gylch Chwarae sy'n cynnig dwy sesiwn y dydd***<br><br>*Mae'r darparwr hwn yn cynnig sesiwn bore i blant rhwng 2.5 a 4 oed, o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor, rhwng 9am a 11:30am. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys oriau a ariennir ar gyfer addysg ac oriau a ariennir gan Dechrau'n Deg. Mae'r gwasanaeth yn cau am ginio rhwng 11:30am a 12:30 pm ac nid oes unrhyw blant yn bresennol yn ystod y cyfnod hwn. Yn y prynhawn, mae sesiwn ar wahân ar gael i blant gwahanol yn yr un ystod oedran, sef 2.5 i 4 oed. Cynhelir y sesiwn hon rhwng 12:30pm a 3:00pm, ac mae'n cynnwys oriau a ariennir gan Dechrau'n Deg*.<br><br>***Darpariaeth gofleidiol – prynhawn yn unig*** *Mae'r darparwr hwn yn gweithredu rhwng 12:30pm a 4:00pm i blant rhwng 3 a 5 oed. Mae'n casglu plant o'r ysgol gynradd leol am 12:30pm ac yn gofalu amdanynt tan 4:00pm.* | Cinio |
| ***Crèche***<br><br>*Gofal dydd achlysurol i blant o'u geni hyd at 12 oed mewn mangre annomestig. Mae rhai mewn mangreoedd parhaol ac yn gofalu am blant tra bo'u rhieni'n cymryd rhan mewn gweithgareddau (ee hyfforddiant, siopa neu chwaraeon). Mae rhai eraill wedi'u sefydlu dros dro i ofalu am blant tra bo'u rhieni'n cymryd rhan mewn gweithgareddau am gyfnod penodol o amser (ee cynhadledd neu arddangosfa).*<br><br>***Enghreifftiau***<br><br>***Parhaol***<br>*Darparwr gofal plant sy'n hwyluso gwasanaethau gofal plant i rieni mewn canolfan hamdden. Mae'r gwasanaeth yn rhedeg rhwng 7am a 7pm ac yn cynnig gofal i blant rhwng 12 mis a 12 oed.*<br><br>***Dros Dro*** | Gofal Dydd Llawn<br><br>Bore yn unig<br><br>Prynhawn yn unig |

<table>
<tr><td>*Awdurdod lleol sy'n darparu crèche symudol i ofalu am blant tra bo’u rhieni'n mynychu dosbarthiadau addysgol. Mae'n gweithredu mewn lleoliadau amrywiol.*</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="5">***Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol***<br><br>*Gofal plant a ddarperir mewn mangre annomestig y tu allan i ddiwrnod ysgol y plentyn. Gall gynnwys gofal a ddarperir cyn ysgol, ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Nid yw'n cynnwys gofal cofleidiol na chynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd.*<br><br>***Enghreifftiau***<br><br>***Ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau***<br>*a) Mae'r gwasanaeth yn gweithredu mewn canolfan gymunedol ac yn darparu sesiynau rhwng 3.15pm a 6pm ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener yn ystod y tymor. Yn ystod y gwyliau, mae'r gwasanaethau yn gweithredu rhwng 9.30am a 4pm am dridiau bob wythnos.*<br>*b) Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar safle ysgol ac nid yw'r ddarpariaeth gofal yn gysylltiedig â darpariaeth addysg. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 3pm a 5.15pm ar ddydd Mawrth a dydd Iau yn ystod y tymor a rhwng 9.30am a 3.30pm ar ddydd Mawrth a dydd Iau yn ystod gwyliau'r ysgol.*<br><br>***Yn ystod gwyliau'r ysgol yn unig***<br>*Mae'r gwasanaeth yn gweithredu mewn canolfan hamdden. Mae'n darparu amrywiaeth o weithgareddau a gofal ac yn gweithredu rhwng 9.00am a 4pm bob dydd yn ystod gwyliau chwe wythnos yr haf.*<br><br>***Ar ôl ysgol yn unig***<br>*Mae gwasanaeth yn gweithredu ar safle ysgol ac nid yw'r ddarpariaeth gofal yn gysylltiedig â darpariaeth addysg. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 3pm a 5.45pm bob dydd yn ystod yr wythnos yn ystod y tymor yn unig.*</td><td>Cyn ysgol</td></tr>
<tr><td>Ar ôl ysgol</td></tr>
<tr><td>Sesiynau cynllun chwarae</td></tr>
<tr><td>Ar benwythnosau a chyda'r nos (Ar ôl 6pm)</td></tr>
<tr><td>Dros nos</td></tr>
<tr><td rowspan="3">***Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored***<br><br>*Mae darpariaeth gwaith chwarae â staff yn briodol i blant o bob oedran.*<br>*At ddibenion rheoleiddio, mae darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored â staff ar gyfer plant 5 i 12 oed. Gall fod yn ddarpariaeth barhaol neu dros dro, wedi ei lleoli mewn amrywiaeth o leoliadau â mangre benodol neu heb fangre benodol, fel y'i diffinnir yng nghanllawiau statudol ‘Cymru – gwlad lle mae cyfle i*</td><td>Cyn ysgol</td></tr>
<tr><td>Ar ôl ysgol</td></tr>
<tr><td>Sesiynau cynlluniau chwarae</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| *chwarae*[35]*. Ni wneir trefniant ymlaen llaw â'r person cofrestredig i ddarparu gofal plant. Nid yw'n ofynnol i blant gael eu hebrwng gan riant neu berson cyfrifol aralli'r fangre berthnasol ac oddi yno. Ni chyfyngir ar symudiadau'r plant, heblaw pan fydd materion diogelwch yn gofyn am hynny.*<br><br>***Enghreifftiau***<br><br>***Safle sefydlog – ar ôl ysgol a gwyliau***<br>*Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar faes chwarae antur. Mae'r gwasanaeth ar agor bob prynhawn o'r wythnos rhwng 3pm a 5.30pm, ar ddydd Sadwrn rhwng 10am a 3pm, ac yn ystod gwyliau ysgol rhwng 10am a 3pm.*<br><br>***Safle sefydlog – gwyliau ysgol yn unig***<br>*Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o adeilad cymunedol a'i diroedd. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu am dair wythnos yn ystod gwyliau haf ysgolion ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwner rhwng 9am a 4pm.*<br><br>***Peripatetig – gwyliau ysgol yn unig***<br>*Mae tîm chwarae awdurdod lleol yn cynnig darpariaeth chwarae dros dro ar bedwar safle yn ystod gwyliau haf chwe wythnos ysgolion.*<br>*Safle 1 – Tiroedd canolfan gymunedol – Dydd Llun a dydd Mercher rhwng 9.30am a 12pm.*<br>*Safle 2 – Parc – Dydd Llun a dydd Mercher rhwng 12.30pm a 3pm*<br>*Safle 3 – Coetir – Dydd Mawrth a dydd Iau rhwng 12.30 a 3pm*<br>*Safle 4 – Ardal laswellt mewn stad dai – Dydd Gwener rhwng 10am a 2pm* | |

| | |
|---|---|
| **Nani** (darparwr gofal plant yn y cartref a gymeradwywyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru)<br><br>*Mae hyn yn golygu person sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal plant cymwys, hy person sy'n cael ei gyflogi:*<br>• *i ofalu am blentyn neu grŵp o frodyr a chwiorydd ar gyfer rhieni (y rhieni cyntaf), neu*<br>• *i ofalu am ail blentyn neu grŵp o frodyr a chwiorydd ar gyfer rhieni (yr ail rieni) yn ychwanegol at y plant y gofelir amdanynt ar gyfer y rhieni cyntaf, ac sy'n gofalu am y plant dan sylw yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref neu gartrefi'r rhieni cyntaf neu'r ail rieni.* | Gofal dydd llawn<br><br>Gofal hanner diwrnod (am)<br><br>Gofal hanner diwrnod (pm)<br><br>Cyn ysgol<br><br>Gofal cofleidiol i ategu lleoliad addysg gynnar rhan-amser, ee cylch chwarae, ysgol neu feithrinfa |

[35] Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae | LLYW.CYMRU

| | |
|---|---|
| *Os oes mwy na dau deulu yn defnyddio'r gofal ar yr un pryd, yna mae'r gofal yn dod o dan y categori "gwarchod plant" ac mae angen i warchodwyr plant gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.*<br><br>*Gall nani/darparwr gofal plant yn y cartref weithredu ar sail gyflogedig neu hunangyflogedig.* | |
| | Ar ôl ysgol |
| | Gofal plant yn ystod y gwyliau |
| | Arall |

| **Diffiniadau o Wasanaethau Gofal Plant** | |
|---|---|
| | |
| Gofal Dydd Llawn | Gofal a ddarperir am gyfnod parhaus o bedair awr neu fwy mewn unrhyw ddiwrnod, mewn mangre ddomestig. |
| Gofal Hanner Diwrnod | Gofal a ddarperir am gyfnod parhaus o bedair awr neu fwy mewn unrhyw ddiwrnod, mewn mangre ddomestig, naill ai yn y bore neu'r prynhawn yn unig. |
| Cyn ysgol | Gofal a ddarperir am gyfnod sy'n cynnwys amser yn y bore y tu allan i oriau ysgol. |
| Ar ôl ysgol | Gofal a ddarperir am gyfnod sy'n cynnwys amser yn y prynhawn/gyda'r nos y tu allan i oriau ysgol. |
| Meithrinfa – Diwrnod Llawn | Gofal a ddarperir am gyfnod parhaus o bedair awr neu fwy mewn unrhyw ddiwrnod, mewn mangre annomestig. |
| Meithrinfa – Hanner Diwrnod | Gofal a ddarperir am gyfnod parhaus o bedair awr neu fwy mewn unrhyw ddiwrnod, mewn mangre annomestig, naill ai yn y bore neu'r prynhawn yn unig. |
| Cylch Chwarae | Sesiwn wedi ei threfnu lle mae plant yn dod ynghyd i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau gan ganolbwyntio ar ryngweithio cymdeithasol, dysgu cynnar, a datblygiad. |
| Cylch Meithrin | Sesiwn wedi ei threfnu lle mae plant yn dod ynghyd i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau gan ganolbwyntio ar ryngweithio cymdeithasol, dysgu cynnar, a datblygiad drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Crèche | Gofal plant achlysurol i blant mewn mangre annomestig. |
| Cinio | Gofal a ddarperir yn ystod amser cinio'r ysgol. |
| Cynlluniau Chwarae yn Ystod y Gwyliau | Cyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth a ddarperir gan staff gwaith chwarae neu ofal plant cymwysedig yn ystod gwyliau'r ysgol. |
| Sesiynau cynllun chwarae | Cyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth a ddarperir gan staff gwaith chwarae neu ofal plant cymwysedig yn ystod gwyliau'r ysgol. |
| Bore yn Unig | Gofal a ddarperir am gyfnod parhaus o lai na phedair awr mewn unrhyw ddiwrnod, yn ystod y bore. |
| Prynhawn yn Unig | Gofal a ddarperir am gyfnod parhaus o lai na phedair awr mewn unrhyw ddiwrnod, yn ystod y prynhawn. |
| Darpariaeth yn Ystod y Gwyliau / Gofal Plant yn Ystod y Gwyliau | Gofal plant wedi ei drefnu a ddarperir yn ystod gwyliau'r ysgol. |

| | |
|---|---|
| Ar Benwythnosau a Chyda'r Nos | Gofal a ddarperir am gyfnod parhaus mewn unrhyw ddiwrnod, yn ystod oriau gwaith annodweddiadol (hy ar ôl 6pm, cyn 8am, ac ar benwythnosau a gwyliau banc). |
| Dros Nos | Gofal a ddarperir am gyfnod parhaus yn ystod oriau gwaith annodweddiadol dros nos. |

# Atodlen 4

## Templed ar gyfer Adroddiad ar Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016[36] a Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2026[37] yn nodi'r hyn y dylid ei gynnwys yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Mae Pennod 2 o'r Canllawiau Statudol ar Ofal Plant (2026) yn rhoi rhagor o fanylion am y modd y mae rhaid i awdurdodau lleol fesur natur a graddau'r angen am ofal plant, a'r gofal plant a gyflenwir, yn eu hardal.

Bwriedir i'r templed hwn fod yn sail i'r Asesiad i awdurdodau lleol. Gall awdurdodau lleol addasu'r templed hwn neu ddefnyddio eu templed eu hunain; fodd bynnag, nid yw'n disodli'r Rheoliadau a'r canllawiau cyhoeddedig y dylid cyfeirio atynt i weld y gofynion manwl.

1. **Cyflwyniad / Cyd-destun**

2. **Gwaith Partneriaeth, Cyfranogiad ac Ymgysylltu**
   Rhowch wybodaeth am y modd y mae rhanddeiliaid, partneriaid, rhieni a phlant wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.
   <u>Pwyntiau i'w Cofio</u>
   - Adlewyrchwch fewnbwn plant, rhieni/gofalwyr, a darparwyr gofal plant neu gynrychiolwyr y grwpiau hyn, yn ogystal ag unigolion a chanddynt fuddiant mewn gofal plant a'u cynrychiolwyr, awdurdodau lleol cyfagos, a sefydliadau addysgol eraill.
   - Sicrhewch fewnbwn gan feysydd polisi a chyflawni perthnasol yr awdurdod lleol ee addysg (gan gynnwys addysg cyfrwng Cymraeg), y Blynyddoedd Cynnar, chwarae, cynllunio, tai, trafnidiaeth a gofal cymdeithasol.
   - Ystyriwch ymgysylltu â'r rhanddeiliaid a nodir yn Atodlen 2 i'r Canllawiau Statudol ar Ofal Plant.
   - Cadarnhewch fod yr Asesiad drafft Digonolrwydd Gofal Plant wedi ei gyhoeddi ar gyfer cyfnod ymgynghori o 28 o ddiwrnodau, a'i ddiweddaru yn ôl yr angen, cyn cael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol. Rhowch ddyddiad cyhoeddi.

---

[36] Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016
[37] Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2026

3. **Dadansoddiad o'r Galw am Ofal Plant, y Cyflenwad a'r Bylchau**

Pwyntiau i'w Cofio

- Mae Pennod 2 o'r Canllawiau Statudol yn nodi ffactorau y gellir eu defnyddio i asesu'r galw a'r cyflenwad, gan gynnwys nifer y plant sy'n defnyddio gofal plant a'r nifer sydd ar restrau aros, a chapasiti darparwyr a lleoedd gwag.
- Dylech gynnwys dadansoddiad o argaeledd neu ddiffyg argaeledd pob math o ofal plant:
  - Gwarchodwr Plant
  - Gofal Dydd Llawn
  - Gofal Dydd Sesiynol
  - Crèches
  - Gofal y Tu Allan i'r Ysgol
  - Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored
  - Nani / Darparwr Gofal Plant Cymeradwy yn y Cartref drwy Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Rhowch ddadansoddiad o unrhyw angen heb ei ddiwallu a nodwyd, a manylwch ar unrhyw rwystrau i gael darpariaeth gofal plant, a'r camau y mae angen eu cymryd i'w dileu.
- Ystyriwch yr Asesiad o Lesiant Lleol er mwyn canfod y galw am ddarpariaeth gofal plant.
- Defnyddiwch ffynonellau data perthnasol, ee Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth AGC, SYG, ac ati.
- Defnyddiwch wybodaeth leol ac arolygon.

4. **Y Gymraeg**

Pwyntiau i'w Cofio

- Dylech gynnwys data sydd ar gael ar y canlynol:
  - capasiti gwasanaethau, yn unol â'r categorïau Cymraeg
  - nifer y plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd; ac
  - asesiad o newid yn nifer y plant sy'n defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg.
- Dylech gynnwys unrhyw naratif, trafodaeth, myfyrdod neu gyd-destun ychwanegol sy'n berthnasol i'r data hyn sy'n deillio o'ch profiad o gefnogi gofal plant yn eich ardal.
- Rhowch amlinelliad o ddealltwriaeth yr awdurdod lleol o'r galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.
- Dangoswch gysondeb â chamau gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn sicrhau bod yr Asesiad yn adlewyrchu cynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer twf a pharhad addysg cyfrwng Cymraeg.

5. **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Pwyntiau i'w Cofio

- Dylech gynnwys data sydd ar gael ar y canlynol:

    - y capasiti i gefnogi plant ag ADY a/neu anabledd yn seiliedig ar wybodaeth leol,
    - gan gynnwys gwybodaeth am gapasiti staff, hyfforddiant a chyfarpar ac adnoddau.
- Dylech gynnwys unrhyw naratif, trafodaeth, myfyrdod neu gyd-destun ychwanegol sy'n berthnasol i'r data hyn sy'n deillio o'ch profiad o gefnogi gofal plant yn eich ardal.
- Cydgysylltwch â Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar eich awdurdod lleol er mwyn cael gafael ar ffynonellau data perthnasol a datblygu naratif ar y pwyntiau uchod.

6. **Dosbarthiad Daearyddol**
   <u>Pwyntiau i'w Cofio</u>
   - Rhaid i'r Asesiad gynnwys dadansoddiad o ddosbarthiad daearyddol pob math o ofal plant yn ardal yr awdurdod lleol ac unrhyw fylchau yn y dosbarthiad hwnnw.
   - Gallech ystyried cynnwys manylion ffigurau poblogaeth rhagamcanol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol a'r prif dueddiadau a ffactorau sy'n debygol o effeithio ar y ffigurau hynny.
   - Defnyddiwch wybodaeth leol i ddehongli anghenion demograffig a daearyddol, gan amlinellu ffactorau lleol sy'n effeithio arnynt.

7. **Darpariaeth Drawsffiniol**
   <u>Pwyntiau i'w Cofio</u>
   - Dangoswch eich bod wedi ystyried anghenion y rhai sy'n defnyddio gofal plant y tu allan i ardal eich awdurdod lleol yn ogystal â'r rhai sy'n teithio i ardal eich awdurdod lleol i ddefnyddio gofal plant.
   - Dangoswch eich bod wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos i asesu nifer y bobl sy'n defnyddio gofal plant trawsffiniol.

8. **Cynaliadwyedd**
   <u>Pwyntiau i'w Cofio</u>
   - Cofiwch gynnwys unrhyw ffactorau sydd wedi effeithio ar gynaliadwyedd darparwyr gofal plant presennol, fel gofal plant a ariennir gan y llywodraeth, cyllid wedi ei sianelu at rieni ac achosion o ganslo cofrestriad ag AGC.

9. **Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu**
   <u>Pwyntiau i'w Cofio</u>
   Rhowch drosolwg o'r sefyllfa o ran cymwysterau ac anghenion hyfforddi'r gweithlu
   - Myfyriwch ar y problemau a wynebir a sut y gellir mynd i'r afael â hwy
   - Dangoswch y gweithgarwch ymgysylltu a wnaed i ddatblygu'r wybodaeth hon.

## 10. Cynllun Gweithredu

Gweler y templed ar gyfer Cynllun Gweithredu (Atodlen 5).

## Atodlen 5

## Cynllun Gweithredu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

(1) Rhaid i bob asesiad a gaiff ei baratoi gan yr awdurdod lleol gynnwys cynllun gweithredu.

(2) Pan fo asesiad yn nodi:

a) annigonolrwydd o ran y ddarpariaeth gofal plant i blant yn ardal yr awdurdod lleol, rhaid i'r cynllun gweithredu nodi pa gamau y mae angen eu cymryd i wella cyfleoedd i blant gael darpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw, neu
b) bod cyfleoedd i blant gael darpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol yn ddigonol, rhaid i'r cynllun gweithredu nodi pa gamau y mae angen eu cymryd i gynnal cyfleoedd i blant gael darpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw.

(3) Rhaid i gynllun gweithredu:

a) nodi blaenoriaeth gymharol y camau gweithredu, a
b) nodi erbyn pryd y bydd yr awdurdod lleol yn cwblhau'r camau gweithredu.

| **Amcan (Yn gysylltiedig â'r Argymhelliad yn yr Asesiad)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau i'w Cymryd** | Person/Tîm Cyfrifol | Amserlen | Cynnydd/Statws | Nodiadau/Camau Nesaf |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# Atodlen 6

## Templed Adroddiad Monitro Blynyddol 2027 ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fonitro eu cynnydd o ran sicrhau gofal plant digonol, yn enwedig eu llwyddiant o ran cau unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, drwy gwblhau a chyflwyno adroddiadau cynnydd a diweddariadau i Gynlluniau Gweithredu i Weinidogion Cymru bob blwyddyn erbyn 30 Mehefin. Dylai'r adroddiad cynnydd fod yn glir ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a dylai amlinellu cyflawniadau, heriau parhaus, ac argymhellion ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol/camau gweithredu pellach yn erbyn y Cynllun Gweithredu blaenorol.

### 1. Cyflwyniad

### 2. Data a Gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddarparu'r Adroddiad

Dylid manylu ar y ffynonellau data presennol a'r wybodaeth leol a ddefnyddiwyd i adolygu cynnydd. Gall hyn fod drwy geisio adborth gan amrywiaeth o ffynonellau yn yr ymarferion ymgynghori a oedd yn rhan o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant. Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol gasglu barn rhieni drwy eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ynghylch y rhesymau pam nad yw gofal plant o bosibl yn diwallu eu hanghenion a chanfod i ba raddau yr ystyrir eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd o ran digonolrwydd gofal plant.

### 3. Diweddaru'r Cynllun Gweithredu

Dylai awdurdodau lleol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a nodwyd yn eu Cynlluniau Gweithredu blaenorol nas cyflawnwyd.

### 4. Cynnydd a Wnaed

Dylai awdurdodau lleol dynnu sylw at eu llwyddiannau wrth gau unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a nodwyd yn flaenorol.

### 5. Heriau Parhaus / Newydd

Dylid rhoi sylw penodol i newidiadau yn natur y ddarpariaeth gofal plant, a'r galw amdani, gan fanylu ar y camau a gymerwyd i ymateb i'r newidiadau hyn. Mae hyn yn cynnwys dogfennu darparwyr newydd, achosion o gau lleoliadau, neu newidiadau mewn mathau o wasanaethau, yn ogystal â

dadansoddi newidiadau yn y galw, fel mwy o angen am ofal plant hyblyg neu arbenigol.

## 6. Camau Nesaf / Y Cynllun Gweithredu wedi ei Ddiweddaru

Dylid awgrymu'r camau nesaf a chamau dilynol i helpu i gynnal y cyflawniadau a wnaed, yn ogystal â lleihau unrhyw fylchau o ran digonolrwydd gofal plant a nodwyd a darparu Cynllun Gweithredu newydd wedi ei ddiweddaru.

# Atodlen 7

## Y Safonau Ansawdd Gofynnol ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Cymru

### 1. Datganiad Gwasanaeth

Er mwyn cyrraedd y safon hon, bydd angen datganiad gwasanaeth (a elwir weithiau'n ddatganiad o hawl cwsmeriaid) a ddylai nodi bod gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd nodau ac amcanion clir, sy'n adlewyrchu anghenion lleol. Dylai'r datganiad roi crynodeb byr o'r gwasanaeth a ddarperir i ddefnyddwyr (yn seiliedig ar y safonau gofynnol hyn) a chynnwys cyfeiriadau at y canlynol: ymrwymiad y Bartneriaeth i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd – gan gynnwys ei threfniadau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth; datganiad cenhadaeth ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd; y model cyflawni ee amseroedd agor, y defnydd o beiriant ateb, allgymorth ac ati; lefel a chywirdeb yr wybodaeth yn y gronfa ddata; polisi codi ffioedd; cyfeiriadau at y strategaeth farchnata a chyhoeddusrwydd, cyfrinachedd a didueddrwydd, cwynion, cyfle cyfartal; monitro a gwerthuso; ac ymrwymiad i ddatblygu ansawdd.

### 2. Strategaeth Gwybodaeth

Er mwyn cyrraedd y safon hon, bydd angen amlinelliad o strategaeth gwybodaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, gan gynnwys manylion am yr wybodaeth i'w chadw a pholisïau casglu gwybodaeth. Dylai'r amlinelliad hefyd gynnwys trefniadau casglu a throsglwyddo data â darparwyr ac Arolygiaeth Gofal Cymru, ynghyd â gweithdrefnau ar gyfer cynnal gwybodaeth a chywirdeb yr wybodaeth honno – gan gynnwys trefniadau i adolygu'r gronfa ddata gyfan o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylid hefyd gynnwys dulliau cyflawni (ee amseroedd agor, allgymorth a threfniadau cyfeirio).

### 3. Egwyddorion Sylfaenol

Er mwyn cyrraedd y safon hon, bydd angen polisïau ysgrifenedig sy'n ymdrin â'r canlynol: cyfrinachedd; diduedddrwydd; cyfle cyfartal; hygyrchedd; cwynion, amddiffyn plant, materion ieithyddol a safonau gwasanaeth/desg.

### 4. Gweithio gyda Phartneriaid/Strategaeth Gyfathrebu

Er mwyn cyrraedd y safon hon, bydd angen cynllun sy'n amlinellu partneriaid allweddol; pam maent yn bwysig i waith y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd; a sut y byddant yn cael eu cynnwys – a allai fod drwy gytundebau neu brotocolau ffurfiol neu drwy gymryd rhan mewn grŵp cynghori i lywio datblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

## 5. Strategaeth Marchnata a Chyhoeddusrwydd

Er mwyn cyrraedd y safon hon, bydd angen cynllun a ddylai amlinellu'r strategaeth marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, gan gynnwys y canlynol:
trefniadau ar gyfer cynnal ymchwil i'r farchnad er mwyn nodi pob darpar ddefnyddiwr a'i anghenion; a strategaeth marchnata ffurfiol gydag ymrwymiad i sicrhau bod taflen yn esbonio'r gwasanaeth, taflen yn esbonio'r opsiynau ar gyfer gofal plant, a phoster ar gael o leiaf – dylai'r strategaeth nodi'n glir sut a ble y caiff y deunydd cyhoeddusrwydd ei ddefnyddio.

## 6. Monitro a Gwerthuso

Er mwyn cyrraedd y safon hon, bydd angen strategaeth a ddylai esbonio'r canlynol:
sut y bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn monitro barn defnyddwyr drwy ddefnyddio ffurflenni monitro ac adborth gan gwsmeriaid; sut y caiff yr wybodaeth ei gwerthuso a'i defnyddio i wella'r gwasanaeth; a rôl y Bartneriaeth wrth helpu i ddatblygu'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, ee drwy grŵp cynghori.

## 7. Rheoli

Er mwyn cyrraedd y safon hon, bydd angen amlinelliad o'r trefniadau rheoli ar gyfer y gwasanaeth gyda chyfeiriadau at y canlynol: lefelau staffio (gan gynnwys polisïau sefydlu, datblygu staff ac iechyd a diogelwch); adnoddau eraill; pan fo modd, cyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd – dylid nodi cyllideb marchnata a datblygu staff o leiaf; trefniadau ar gyfer arfarnu ac adolygu datblygiad staff; trefniadau ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn amcanion y gwasanaeth; ac adolygiad blynyddol o'r gwasanaeth.

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu neu anableddau y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ddysgu. |
| Asesiad | Yr asesiad a gynhelir gan awdurdod lleol yn unol â'r Rheoliadau hyn. |
| Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae | Asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae o fewn ardal awdurdod lleol. |
| Capasiti darparwyr gofal plant | Uchafswm nifer y plant y gall gwasanaeth gofal plant a chwarae cofrestredig ofalu amdanynt ar unrhyw adeg. Mae'r nifer hwn yn seiliedig ar y cymarebau oedolion:plant a'r safonau o ran lle a bennir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir[38]. |
| Cyfrifoldeb rhiant | Person sy'n ymgymryd â'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant o dan y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo. |
| Cymorth Dysgu Ychwanegol | Yr enw ar y cymorth ychwanegol a roddir i blant a phobl ifanc ag ADY. |
| Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg | Cynllun statudol deng mlynedd y mae rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ei baratoi sy'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu addysg Gymraeg a chyfrwng Cymraeg. |
| Darpar riant | Menyw feichiog neu unrhyw berson arall sy'n debygol o ddod yn rhiant, neu sy'n bwriadu dod yn rhiant. |
| Darparwr Gofal Plant | Unrhyw berson sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur i ddarparu gofal plant. |
| Digonolrwydd | Sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, sy'n hyblyg, yn gynaliadwy ac yn ymatebol i anghenion teuluoedd. |
| Fforddiadwyedd | Y graddau y gall teulu dalu am ofal plant heb faich ariannol gormodol. |

[38] Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir | LLYW.CYMRU

| | |
|---|---|
| Fforwm addysg cyfrwng Cymraeg | Corff a sefydlwyd gan awdurdod lleol er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal, y mae ei aelodau'n cynnwys yr awdurdod lleol ac unigolion eraill sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol. |
| Gofal cofleidiol | Darpariaeth gofal plant sy'n helpu'r rhieni hynny y mae eu plant yn mynychu lleoedd addysg feithrin a ariennir i ymestyn y ddarpariaeth i ddiwrnod ysgol llawn. |
| Gofal Plant a Ariennir | Gofal plant a ariennir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan Weinidogion Cymru drwy grantiau neu gynlluniau eraill sy'n talu arian yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ddarparwyr gwasanaethau gofal plant er mwyn lleihau cost y gwasanaethau hynny i rieni. |
| Gofal plant annodweddiadol | Gofal plant a ddefnyddir yn ystod oriau gwaith annodweddiadol, sef cyn 8am, ar ôl 6pm, neu ar benwythnosau. |
| Gofal Plant Cymeradwy | Darpariaeth a gynigir gan ddarparwyr sy'n gweithredu o dan gynllun cymeradwyo Llywodraeth Cymru, yn hytrach na chofrestriad ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r llwybr hwn yn berthnasol i ddarparwyr sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru ag AGC ond sy'n bodloni meini prawf penodol. |
| Gwarchodwr Plant | Person sy'n gofalu am un neu fwy o blant o dan 12 oed ar safle domestig am dâl. |
| Gwasanaethau Gofal Plant | Ceir Manylion yn Atodlen 3. |
| Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Y gwasanaeth y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei ddarparu yn ôl adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006. |
| Lleoedd Gwag/Heb eu Llenwi | Nifer y lleoedd gofal plant neu chwarae cymeradwy y mae gwasanaeth wedi ei gofrestru i'w darparu nad ydynt wedi'u llenwi gan blant ar adeg cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. |
| Mathau o Ofal Plant | Ceir Manylion yn Atodlen 3. |
| Y Mesur | Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. |

| | |
|---|---|
| Mynediad at Ofal Plant | Gallu teuluoedd i gael gofal plant digonol, addas, fforddiadwy o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion. |
| Nani / Darparwr Gofal Plant Cymeradwy yn y Cartref | Person sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal plant cymwys, hy person sy'n cael ei gyflogi:<br>• i ofalu am blentyn neu grŵp o frodyr a chwiorydd ar gyfer rhieni (y rhieni cyntaf), neu<br>• i ofalu am ail blentyn neu grŵp o frodyr a chwiorydd ar gyfer rhieni (yr ail rieni) yn ychwanegol at y plant y gofelir amdanynt ar gyfer y rhieni cyntaf, ac sy'n gofalu am y plant dan sylw yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref neu gartrefi'r rhieni cyntaf neu'r ail rieni.[39] |
| Person Ifanc | Person sydd wedi cyrraedd 18 oed ond nad yw wedi cyrraedd 20 oed. |
| Person sydd â chyfrifoldeb gofalu | Mae gan berson gyfrifoldeb gofalu dros blentyn os yw'r person hwnnw'n byw gyda'r plentyn ac yn gofalu amdano, ni waeth beth fo'i berthynas â'r plentyn. |
| Rhestr Aros Darparwr Gofal Plant | Rhestr o geiswyr sy'n aros am gynnig gan ddarparwr gofal plant am le gofal plant mewn perthynas â phlentyn. Dim ond y rhai a all gael darpariaeth ar unwaith os oes lle ar gael y dylid eu cyfrif ar restrau aros, ac eithrio'r rhai sy'n aros oherwydd cyfyngiadau oedran. |
| Rhiant | Mae rhiant yn cynnwys unrhyw unigolyn;<br>(a) sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn, neu<br>(b) sy'n gofalu am blentyn.<br>Gall hyn gynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, llys-rieni, gofalwyr sy'n berthnasau, a theidiau a neiniau. |
| Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol | Sefydliad sy'n rhoi cyngor ar sut i helpu pobl i gael cyngor o ansawdd da ar les cymdeithasol. |
| Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu | Swyddog sy'n gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys |

[39] Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 – Canllawiau Cymeradwyo (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru

| | |
|---|---|
| Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar | Addysg (Cymru) 2018 mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. |
| Swyddog arweiniol digonolrwydd cyfleoedd chwarae | Y swyddog yn yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 11 o'r Mesur. |
| Sefydliad yn y trydydd sector | Sefydliad y gallai person ystyried yn rhesymol ei fod yn bodoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf er budd cymdeithas. |